

BOUNDARY COMMISSION FOR WALES

**FIFTH PERIODICAL REPORT ON
PARLIAMENTARY CONSTITUENCIES AND FIRST
REPORT ON NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES
ELECTORAL REGIONS**

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

**Y PUMED ADRODDIAD CYFNODOL AR
ETHOLAETHAU SENEDDOL A'R ADRODDIAD
CYNTAF AR RANBARTHU ETHOLIADOL
CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

London: The Stationery Office

Llundain: Y Llyfrfa

HC 743-I

£60

Part one of a two part set,
not to be sold separately

Rhan un o gyfres ddwy
ran, ni cheir eu gwerthu
ar wahân

BOUNDARY COMMISSION FOR WALES

**FIFTH PERIODICAL REPORT ON
PARLIAMENTARY CONSTITUENCIES AND FIRST
REPORT ON NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES
ELECTORAL REGIONS**

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

**Y PUMED ADRODDIAD CYFNODOL AR
ETHOLAETHAU SENEDDOL A'R ADRODDIAD
CYNTAF AR RANBARTHU ETHOLIADOL
CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

Ordered by the House of Commons to be printed
14 December 2005

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin I'w argraffu
14 Rhagfyr 2005

London: The Stationery Office

Llundain: Y Llyfrfa

CYFANSODDIAD Y COMISIWN

Yn unol ag Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986, dyma sut y ffurfiwyd y Comisiwn:

Aelod yn Rhinwedd ei Swydd

LLEFARYDD TŶ'R CYFFREDIN, *Cadeirydd*.

A thri Aelod arall

YR ANRHYDEDDUS MR USTUS STEPHEN RICHARDS, *Dirprwy Gadeirydd*
a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor.

YR ATHRO KENNETH GEORGE,
a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau.¹

MRS SUSAN SMITH,
a benodwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Aseswyr

COFRESTRYDD CYFFREDINOL CYMRU A LLOEGR.

CYFARWYDDWR CYFFREDINOL YR AROLWG ORDNANS.

Cyd-ysgrifenyddion

Mr Mark Barnett

Mr Edward Lewis

a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau.¹

¹ Trosglwyddwyd cyfrifoldeb o'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau i'r Dirprwy Brif Weinidog ym mis Gorffennaf 2002 ar ôl gwneud y penodiadau hyn.

CONSTITUTION OF THE COMMISSION

In accordance with Schedule 1 to the Parliamentary Constituencies Act 1986, the Commission was constituted as follows:

Ex-officio Member

THE SPEAKER OF THE HOUSE OF COMMONS, *Chairman.*

And three other Members

THE HONOURABLE MR JUSTICE STEPHEN RICHARDS, *Deputy Chairman*
appointed by the Lord Chancellor.

PROFESSOR KENNETH GEORGE,
appointed by the Secretary of State for Transport, Local Government and the Regions.¹

MRS SUSAN SMITH,
appointed by the Secretary of State for Wales.

Assessors

THE REGISTRAR GENERAL FOR ENGLAND AND WALES.

THE DIRECTOR GENERAL OF ORDNANCE SURVEY.

Joint Secretaries

Mr Mark Barnett

Mr Edward Lewis

appointed by the Secretary of State for Transport, Local Government and the Regions.¹

¹ Responsibility transferred from the Secretary of State for Transport, Local Government and the Regions to the Deputy Prime Minister in July 2002 after these appointments were made.

CYNNWYS

	Tudalen
A. CYFLWYNIAD	1
B. RHEOLAU AR GYFER AILDDOSBARTHU SEDDI	3
C. CYNNAL YR ADOLYGIAD	6
D. ETHOLAETHAU SENEDDOL: ARGYMHELLION	10
Clwyd.....	11
Dyfed.....	18
Gwent a Morgannwg Ganol.....	24
Gwynedd.....	34
Powys.....	39
De Morgannwg.....	42
Gorllewin Morgannwg	49
E. ETHOLAETHAU SENEDDOL: CRYNODEB.....	53
F. RHANBARTHAU ETHOLIADOL CYNULLIAD CYMRU: ARGYMHELLION.....	54
Atodiad A Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi	59
Atodiad B Rheolau ar gyfer Cyfansoddiad Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad	61
Atodiad C Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cartref	63
Atodiad D Datganiad ar y defnydd o'r iaith Gymraeg.....	64
Atodiad E Comisiynwyr Cynorthwyol ac ymchwiliadau lleol.....	66
Atodiad F Etholaethau presennol yn ôl sir gadwedig.....	67
Atodiad G Etholaethau presennol yn ôl gwriad o gwota etholiadol.....	68
Atodiad H Etholaethau a argymhellir yn ôl gwriad o gwota etholiadol.....	69
Atodiad I Etholaethau a argymhellir yn ôl gwriad o gyfartaledd sir gadwedig	70
Atodiad J Siroedd cadwedig ac awdurdodau unedol gyda hawliau damcaniaethol	72
Atodiad K Adrannau etholiadol awdurdodau unedol yn ôl sir gadwedig	73
Atodiad L Effaith argymhellion ar etholaethau'r Cynulliad.....	86
Atodiad M Mapiau o etholaethau presennol a argymhellir	87
(a dangosir yn Rhan 2)	

CONTENTS

	Page
A. INTRODUCTION.....	1
B. RULES FOR THE REDISTRIBUTION OF SEATS.....	3
C. CONDUCT OF THE REVIEW	6
D. PARLIAMENTARY CONSTITUENCIES: RECOMMENDATIONS.....	10
Clwyd.....	11
Dyfed.....	18
Gwent and Mid Glamorgan	24
Gwynedd.....	34
Powys.....	39
South Glamorgan.....	42
West Glamorgan	49
E. PARLIAMENTARY CONSTITUENCIES: SUMMARY.....	53
F. WELSH ASSEMBLY ELECTORAL REGIONS: RECOMMENDATIONS.....	54
Appendix A Rules for the Redistribution of Seats.....	59
Appendix B Rules for the Constitution of Assembly Electoral Regions	61
Appendix C Home Affairs Committee Inquiry.....	63
Appendix D Statement on the use of the Welsh language.....	64
Appendix E Assistant Commissioners and local inquiries	66
Appendix F Existing constituencies by preserved county.....	67
Appendix G Existing constituencies by deviation from electoral quota	68
Appendix H Recommended constituencies by deviation from electoral quota.....	69
Appendix I Recommended constituencies by deviation from preserved county average.....	70
Appendix J Preserved counties and unitary authorities with theoretical entitlements.....	72
Appendix K Unitary authority electoral divisions by preserved county.....	73
Appendix L Effect of recommendations on Assembly constituencies	86
Appendix M Maps of existing and recommended constituencies	87
(shown in Part 2)	

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Adroddiad ar Bumed Adolygiad Cyffredinol Etholaethau Seneddol dan Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 ac Adolygiad Cyffredinol Cyntaf Rhanbarthau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

AT Y GWIR ANRHYDEDDUS JOHN PRESCOTT AS

Ysgrifennydd Gwladol Cyntaf Ei Mawrhydi

A. CYFLWYNIAD

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi'i sefydlu a'i gyfansoddi dan Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn fel Deddf 1986) at ddiben, fel a nodir yn Adran 2(1) y Ddeddf honno, adolygu'n barhaus ddosbarthiad seddi mewn etholiadau Seneddol. Dan Adran 3(1) Deddf 1986, mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n dangos yr etholaethau yr argymhellwn y dylid rhannu Cymru ynddynt yn unol â'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi, a hynny nid llai nag wyth mlynedd na mwy na deuddeg mlynedd o ddyddiad cyflwyno ein hadroddiad blaenorol. Mae'r Rheolau hyn yn ffurfio Atodlen 2 Deddf 1986 ac fe'u nodir yn Atodiad A yr adroddiad hwn.
2. Cafodd strwythur dwy haen llywodraeth leol yng Nghymru ei ddisodli gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn fel Deddf 1994) gyda 22 o awdurdodau unedol gyda dynodiad Sir neu Fwrdeistref Sirol. Diffiniwyd hefyd gan Ddeddf 1994 siroedd cadwedig a oedd yn seiliedig, gyda rhai diwygiadau, ar yr wyth sir a oedd yn bodoli. Diwygiodd Ddeddf 1994 Reol 4 yn Neddf 1986 i ddisodli sir gyda sir gadwedig mewn perthynas â Chymru. Gwnaed diwygiadau pellach i ffiniau'r siroedd cadwedig gan Orchymyn y Siroedd Cadwedig (Diwygiad i Ffiniau) (Cymru) 2003 a defnyddiwyd y siroedd cadwedig fel a ddiwygiwyd felly yn ystod yr adolygiad hwn.
3. Sefydlodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn fel Deddf 1998) Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac o dan Atodlen 1 y Ddeddf honno mae'n ofynnol i ni gynnal adolygiadau o ranbarthau etholiadol y Cynulliad ar yr un pryd ag adolygiadau cyffredinol o etholaethau Seneddol yn unol â'r Rheolau a nodir ym mharagraff 8 Atodlen 1. Nodir y Rheolau hyn yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.
4. Cyflwynwyd ein hadroddiad blaenorol ar adolygiad cyffredinol (Cmnd. 195) ar 16 Rhagfyr 1994 a rhoddwyd ein hargymhellion mewn grym gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wnaed ar 11 Ebrill 1995 (SI 1995 Rhif 1036). Daeth y 40 etholaeth newydd i rym yn yr etholiad cyffredinol ar 1 Mai 1997. Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau dros dro ers yr adolygiad cyffredinol diwethaf.
5. Dyma bumed adolygiad cyffredinol etholaethau Seneddol yn ymdrin â Chymru gyfan a'r adolygiad cyffredinol cyntaf o ranbarthau etholiadol y Cynulliad.

Boundary Commission for Wales

Report on Fifth General Review of Parliamentary Constituencies under the Parliamentary Constituencies Act 1986 and First General Review of National Assembly for Wales Electoral Regions under the Government of Wales Act 1998.

TO THE RIGHT HONOURABLE JOHN PRESCOTT MP

Her Majesty's First Secretary of State

A. INTRODUCTION

1. The Boundary Commission for Wales is established and constituted under Schedule 1 to the Parliamentary Constituencies Act 1986 (described in this report as the 1986 Act) for the purpose, as laid down in Section 2(1) of that Act, of the continuous review of the distribution of seats at Parliamentary elections. Under Section 3(1) of the 1986 Act, we are required to submit to the Secretary of State, not less than eight or more than twelve years from the date of the submission of our previous report, a report showing the constituencies into which we recommend that Wales should be divided in accordance with the Rules for Redistribution of Seats. These Rules form Schedule 2 to the 1986 Act and are set out in Appendix A to this report.
2. The Local Government (Wales) Act 1994 (described in this report as the 1994 Act) replaced the two-tier structure of local government in Wales with 22 unitary authorities with the designation of County or County Borough. The 1994 Act also defined preserved counties which were based, with some amendments, on the existing eight counties. The 1994 Act amended Rule 4 in the 1986 Act to replace county with preserved county in relation to Wales. The Preserved Counties (Amendment to Boundaries) (Wales) Order 2003 made further amendments to the boundaries of the preserved counties and we used the preserved counties so amended during this review.
3. The Government of Wales Act 1998 (described in this report as the 1998 Act) established the National Assembly for Wales, and under Schedule 1 to that Act we are required to undertake reviews of the Assembly electoral regions at the same time as general reviews of Parliamentary constituencies in accordance with the Rules set out in paragraph 8 of Schedule 1. These Rules are set out in Appendix B to this report.
4. Our previous report on a general review (Cmnd. 195) was submitted on 16 December 1994 and our recommendations were given effect by Order in Council made on 11 April 1995 (SI 1995 No.1036). The 40 new constituencies took effect at the general election on 1 May 1997. No interim reviews have been conducted since the last general review.
5. This is the fifth general review of Parliamentary constituencies covering the whole of Wales and the first general review of Assembly electoral regions.

6. Rhybuddiwyd am ein bwriad i ddechrau'r adolygiad ar 16 Rhagfyr 2002 ac aethpwyd ati mor gyflym ag y caniatodd ystyriaeth lawn o'r holl gynrychiolaethau. O'r dechrau i'r diwedd, cymerodd 25 mis i gwblhau'r adolygiad.
7. Hoffem ddiolch i'n haseswyr am eu cymorth mewn cyfarfodydd: a hoffem ddiolch hefyd i'n cyfieithwyr, y gofynnwyd yn aml iddynt fodloni terfynau amser byr iawn.
8. Ein Hysgrifenyddion fu Mr Edward Lewis a Mr Mark Barnett. Cawsant gefnogaeth gan yr ysgrifenyddiaeth: Mr Stephen Halsall, Mr Clive Chapman, Mr David Carr a Mrs Catherine Thomas.
9. Mae'r Dirprwy Gadeirydd wedi llywyddu ein holl gyfarfodydd yn ystod cyfnod yr adolygiad. Fel Cadeirydd pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau, mae Llefarydd Tŷ'r Cyffredin wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith wrth i'r adolygiad fynd yn ei flaen.

6. We gave notice of our intention to commence the review on 16 December 2002 and proceeded as rapidly as full consideration of all the representations allowed. From start to finish the review has taken 25 months to complete.
7. We would like to thank our assessors for the help they have provided at meetings: and we would also like to thank our translators, who have often been asked to meet very short deadlines.
8. Our Secretaries have been Mr Edward Lewis and Mr Mark Barnett. They were supported by the secretariat: Mr Stephen Halsall, Mr Clive Chapman, Mr David Carr and Mrs Catherine Thomas.
9. The Deputy Chairman has presided over all our meetings during the course of the review. As Chairman of each of the four Boundary Commissions, the Speaker of the House of Commons has been kept informed of our work as the review has progressed.

B. RHEOLAU AR GYFER AILDDOSBARTHU SEDDI**Etholaethau Seneddol**

10. Fel a ddangosir uchod, nodir y Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi yn Atodlen 2 Deddf 1986 ac fe'u nodir yn Atodiad A yr adroddiad hwn. Amlinellir isod y prif bwyntiau sy'n berthnasol i'r Rheolau fel y maent yn effeithio ar Gymru.
11. Roedd gofyn i ni seilio'n hargymhellion ar niferoedd yr etholwyr ar Gofrestr yr Etholwyr ar ddyddiad y rhifiad. Dan Reol 8(c) dyma'r dyddiad y cyhoeddwyd yn y London Gazette ein hysbysiad ysgrifenedig i chi am ein bwriad i ystyried llunio adroddiad. Y dyddiad hwnnw oedd 16 Rhagfyr 2002. Cyfanswm y pleidleiswyr ar ddyddiad y rhifiad oedd 2,225,599 sy'n rhoi'r cwota etholiadol o 55,640 pan gaiff ei rannu gan nifer y seddi Seneddol presennol (sef 40).
12. Mae Rheol 1 yn amodi na fydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn llai na 35. Bu pryder ynglŷn â'r ffordd y mae cymhwyso'r Rheolau wedi arwain at gynnydd yn nifer yr etholaethau yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol. Mae effaith cymhwyso'r Rheolau yn tueddu i greu etholaethau ychwanegol (gweler Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cartref a'n sylwadau ar yr ymchwiliad hwn yn Atodiad C). Rydym wedi cadw'r pryderon a fynegwyd ar y mater hwn mewn golwg. Fel y digwyddodd, ni fyddai'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn arwain at gynnydd yn nifer yr etholaethau.
13. Mae Rheol 4 (fel a ddiwygiwyd gan Ddeddf 1994) yn amodi, cyn belled ag y bo'n ymarferol, na fydd unrhyw sir gadwedig nac unrhyw ran o sir gadwedig yn cael ei chynnwys mewn etholaeth sy'n cynnwys unrhyw sir gadwedig gyfan arall neu ran ohoni.
14. Ers yr adolygiad cyffredinol diwethaf, bu newid pwysig i'r ffin rhwng siroedd cadwedig Clwyd a Gwynedd yng Ngogledd Cymru, ac i'r ffin rhwng Gwent a Morgannwg Ganol yn Ne Cymru. Yn y ddau achos, arweiniodd y newid ffin at o leiaf un etholaeth yn cael ei rhannu rhwng dwy sir gadwedig. Yn y ddau achos, roedd rhaid i ni benderfynu a fyddai orau i ystyried pob sir gadwedig ar wahân, gan felly roi cymhwysiad llym i Reol 4, neu ystyried y ddwy sir gyda'i gilydd. Wrth wneud penderfyniad, roedd rhaid i ni ystyried yr hyn sy'n ofynnol neu'r hyn a ganiateir dan Reolau 5-7, yn ogystal ag ystyried Rheol 4. Gan ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol, daethpwyd at y canlyniad ymarferol gorau yn ein barn ni.
15. Mae Rheol 5 yn caniatáu gwyro oddi wrth gymhwysiad llym Rheol 4 os yw'n ymddangos i'r Comisiwn "bod gwriad yn ddymunol i osgoi anghyfartaledd gormodol rhwng etholwyr unrhyw etholaeth a'r cwota etholiadol, neu rhwng etholwyr unrhyw etholaeth a phleidleiswyr etholaethau cyfagos ...".
16. Mae Rheol 6 yn caniatáu i'r Comisiwn wro o gymhwysiad llym Rheolau 4 a 5 "os yw ystyriaethau daearyddol arbennig ... yn ymddangos iddynt fel petaent yn peri i wriad fod yn ddymunol".
17. Yn ôl Rheol 7 mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried, "cyn belled ag y gall yn rhesymol – (a) yr anghyfleusterau sy'n bodoli ar newidiadau i etholaethau ac eithrio newidiadau a wnaed at ddiben Rheol 4, a (b) unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau o'r fath".

B. RULES FOR REDISTRIBUTION OF SEATS

Parliamentary Constituencies

10. As indicated above, the Rules for Redistribution of Seats are laid down in Schedule 2 to the 1986 Act and are set out in Appendix A to this report. The main points relating to the Rules as they affect Wales are outlined below.
11. We were required to base our recommendations on the numbers of electors on the Register of Electors at the enumeration date. Under Rule 8(c) this is the date of publication in the London Gazette of our written notice to you of our intention to consider making a report. That date was 16 December 2002. The total electorate at the enumeration date was 2,225,599 which when divided by the number of existing Parliamentary seats (which is 40) gives the electoral quota of 55,640.
12. Rule 1 provides that the number of constituencies in Wales shall not be less than 35. There has been concern about the way in which application of the Rules has led to an increase in the number of constituencies both in Wales and in the United Kingdom generally. Application of the Rules has the effect of tending to create additional constituencies (see the Home Affairs Committee Inquiry and our comments on this inquiry in Appendix C). We have been mindful of the concerns expressed on this matter. In the event the recommendations in this report would not lead to an increase in the number of constituencies.
13. Rule 4 (as amended by the 1994 Act) provides that, so far as is practicable, no preserved county or any part of a preserved county shall be included in a constituency which includes the whole or part of any other preserved county.
14. Since the last general review there has been a major change to the boundary between the preserved counties of Clwyd and Gwynedd in North Wales, and to the boundary between Gwent and Mid Glamorgan in South Wales. In both cases the boundary change resulted in at least one constituency being divided between two preserved counties. In both cases we had to decide whether it would be best to consider each preserved county separately, thus giving strict application to Rule 4, or to consider two counties together. In coming to a decision we had to have regard not only to Rule 4 but also to what is required or permitted under Rules 5-7. Taking account of all the relevant circumstances, we arrived at what in our judgement was the best practical outcome.
15. Rule 5 permits a departure from the strict application of Rule 4 if it appears to the Commission, “that a departure is desirable to avoid an excessive disparity between the electorate of any constituency and the electoral quota, or between the electorate of any constituency and that of neighbouring constituencies ...”.
16. Rule 6 allows the Commission to depart from the strict application of Rules 4 and 5 “if special geographical considerations ... appear to them to render a departure desirable”.
17. Rule 7 requires the Commission to take account, “so far as they reasonably can – (a) of the inconveniences attendant on alterations of constituencies other than alterations made for the purposes of Rule 4, and (b) of any local ties which would be broken by such alterations”.

18. Mae'n amlwg wrth yr uchod fod rhaid i'r Comisiwn sicrhau cydbwysedd rhwng nifer o ffactorau a all bwyntio i wahanol gyfeiriadau. Wrth lunio'r ffiniau ar gyfer pob etholaeth rydym wedi ystyried yr holl ffactorau perthnasol er mwyn cyflawni'r canlyniad mwyaf priodol yn ein barn ni o ran dosbarthu etholaethau.

Cyfundrefn enwi

19. Dan Adran 3(4) Deddf 1986, mae'n rhaid i ni argymhell enwau a dynodiadau ar gyfer etholaethau. Nid yw Deddf 1986 yn cynnwys unrhyw arweiniad ar y pwyntiau hyn ond, lle cynigiwyd ychydig neu ddim newid i ffiniau etholaeth, penderfynwyd na fyddai angen newid ei henw na'i dynodiad fel arfer. Lle crëwyd etholaeth newydd, penderfynwyd y dylai'r enw adlewyrchu'r ardal a gynhwysir yn gyfan neu'n bennaf yn yr etholaeth cymaint â phosibl. Fodd bynnag, ystyriwyd awgrymiadau amgen yn ofalus ac roeddem yn fodlon adolygu ein cynigion gwreiddiol pan gynigiwyd enw mwy addas.
20. Nid yw Deddf 1986 yn amodi i etholaethau gael dau enw ac felly mae'r enw a ddewisir naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg.
21. Lle'r oedd etholaethau'n cynnwys mwy nag elfen wledig fechan, penderfynwyd y dylid eu dynodi fel etholaethau sirol. Fel arall, cawsant eu dynodi fel etholaethau bwrdeistrefol. Mae'r dynodiad yn pennu pwy fydd yn gweithredu fel swyddog canlyniadau ar gyfer etholiadau Seneddol, ac mae hefyd yn effeithio ar lefel treuliau derbynol ymgeisydd yn ystod ymgyrchoedd etholiad. Dynodwyd etholaethau bwrdeistrefol yn unig yn yr ardaloedd trefol gyda phoblogaeth ddwysach. Caiff y dynodiad ei ôl-ddodi i enw'r etholaeth a chaiff ei dalfyrru: BC ar gyfer Etholaeth Fwrdeistrefol a CC ar gyfer Etholaeth Sirol.

Rhanbarthau Etholiadol Cynulliad Cymru

22. Fel a nodir uchod, sefydlodd Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'n ofynnol yn ôl Atodlen 1 y Ddeddf honno i'r Comisiwn gynnal adolygiadau o ranbarthau'r Cynulliad ar yr un pryd ag adolygiadau cyffredinol o etholaethau Seneddol.
23. Mae Atodlen 1 Deddf 1998 yn nodi mai etholaethau'r Cynulliad fydd yr etholaethau Seneddol yng Nghymru. Mae'n mynnu hefyd bod pum rhanbarth etholiadol i'r Cynulliad a fydd i ddechrau y pump etholaeth Seneddol Ewropeaidd yng Nghymru y darperir ar eu cyfer gan Orchymyn Etholaethau Seneddol Ewropeaidd (Cymru) 1994. Mae'r Atodlen hefyd yn mynnu bod pedair sedd yn y Cynulliad ar gyfer pob rhanbarth etholiadol.
24. Mae Atodlen 1 Deddf 1998 mewn gwirionedd wedi ymestyn Deddf 1986 trwy fynnu bod y Comisiwn, wrth argymhell newidiadau wrth ddilyn Deddf 1986 sy'n effeithio ar unrhyw etholaethau Seneddol, hefyd yn ystyried a fydd angen unrhyw ddiwygiad i: (a) rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, a/neu (b) dyraniad seddi i ranbarthau etholiadol y Cynulliad er mwyn rhoi grym i'r Rheolau a nodir ym mharagraff 8 Atodlen 1 Deddf 1998.

18. It is clear from the above that the Commission has to strike a balance between a number of factors which may point in different directions. In drawing the boundaries for each constituency we have taken all relevant factors into account in order to achieve what we consider to be the most appropriate outcome in terms of the distribution of constituencies.

Nomenclature

19. We are bound under Section 3(4) of the 1986 Act to recommend names and designations for constituencies. The 1986 Act contains no guidance on these points but where we proposed little or no change to the boundaries of a constituency we decided that there would usually be no need to change its name or designation. Where a new constituency was created we decided that the name should as far as possible reflect the name of the area wholly or principally contained in the constituency. However, we gave careful consideration to alternative suggestions and were prepared to revise our original proposals when a more suitable name was put forward.
20. The 1986 Act does not provide for constituencies to have two names and so the name selected is either in Welsh or in English.
21. Where constituencies contained more than a small rural element we decided that they should be designated as county constituencies. Otherwise they were designated as borough constituencies. The designation determines who shall act as returning officer for Parliamentary elections, and also affects the level of a candidate's allowable expenses during election campaigns. Borough constituencies were designated only in the more densely populated urban areas. The designation is suffixed to the name of the constituency and is abbreviated: BC for Borough Constituency and CC for County Constituency.

Welsh Assembly Electoral Regions

22. As indicated above, the Government of Wales Act 1998 established the National Assembly for Wales, and Schedule 1 to that Act requires the Commission to undertake reviews of the Assembly regions at the same time as general reviews of Parliamentary constituencies.
23. Schedule 1 to the 1998 Act specifies that the Assembly constituencies shall be the Parliamentary constituencies in Wales. It also requires there to be five Assembly electoral regions which initially shall be the five European Parliamentary constituencies in Wales provided for by the European Parliamentary Constituencies (Wales) Order 1994. The Schedule also requires that there be four Assembly seats for each electoral region.
24. Schedule 1 to the 1998 Act has in effect extended the 1986 Act by requiring that when the Commission recommend alterations in pursuance of the 1986 Act affecting any Parliamentary constituencies they shall also consider whether any alteration will be required to: (a) the Assembly electoral regions, and/or (b) the allocation of seats to the Assembly electoral regions, in order to give effect to the Rules set out in paragraph 8 of Schedule 1 to the 1998 Act.

25. Nodir y Rheolau yn Atodiad B. Yn amlinellol, mae ganddynt y nodweddion canlynol:
- (a) bydd pob un o etholaethau'r Cynulliad yn cael ei chynnwys yn llawn yn un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad;
 - (b) bydd yr etholaethau rhanbarthol mor agos at ei gilydd ag sy'n rhesymol ymarferol, gan ystyried ystyriaethau daearyddol arbennig;
 - (c) bydd cyfanswm nifer y seddi yn y Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad yn hanner cyfanswm nifer etholaethau'r Cynulliad (mae'r Rheolau yn rhoi arweiniad lle nad oes modd rhannu cyfanswm nifer etholaethau'r Cynulliad yn union yn ddau); a
 - (d) bydd nifer y seddi yn y Cynulliad ar gyfer un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad yn un rhan o bump o gyfanswm nifer y seddi yn y Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad (mae'r Rheolau yn rhoi arweiniad lle nad oes modd rhannu cyfanswm nifer y seddi yn y Cynulliad yn union yn bump).
26. Ar hyn o bryd, mae yna 40 o etholaethau'r Cynulliad ac 20 o seddi yn y Cynulliad – dyrennir pedair ohonynt i bob un o bum rhanbarth y Cynulliad.

25. The Rules are set out in Appendix B. In outline, they have the following features:
- (a) each Assembly constituency shall be wholly included in one Assembly electoral region;
 - (b) the regional electorates shall be as near to each other as is reasonably practicable, having regard to special geographical considerations;
 - (c) the total number of Assembly seats for the Assembly electoral regions shall be one half of the total number of Assembly constituencies (the Rules provide guidance where the total number of Assembly constituencies is not exactly divisible by two); and
 - (d) the number of Assembly seats for an Assembly electoral region shall be one-fifth of the total number of Assembly seats for the Assembly electoral regions (the Rules provide guidance where the total number of Assembly seats is not exactly divisible by five).
26. There are currently 40 Assembly constituencies and 20 Assembly seats - four allocated to each of the five Assembly regions.

C. CYNNAL YR ADOLYGIAD

Sylwadau Rhagarweiniol

27. Dilynwyd arfer ein rhagflaenwyr trwy gyfarfod â chynrychiolwyr o'r holl bleidiau gwleidyddol yng Nghymru a gynrychiolir yn Nhŷ'r Cyffredin er mwyn iddynt ddeall y Rheolau y gweithredwyd yn unol â hwy ac i roi cyfle iddynt ein holi am y ffordd y cynhaliwyd ein hadolygiad. Ni wnaethom wahodd sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein gwaith sy'n arwain at lunio ein hargymhellion dros dro fel, er enghraifft, y grym perthynol a roir i'r rheolau unigol. Ystyriwyd ei bod yn ddoeth llunio ein hargymhellion, ac i gael ein gweld yn llunio ein hargymhellion, yn hollol ddiuedd ac yn annibynnol.
28. Darparodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ar ran Cofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr) etholaethau awdurdodau lleol, adrannau etholiadol ac etholaethau presennol i ni. Gwnaeth staff cofrestru etholiadol mewn awdurdodau lleol ddarparu etholaethau ar ddyddiad y rhifiad ar gyfer ardaloedd lle nad oes Gorchmynion sy'n gwneud newidiadau i ardaloedd llywodraeth leol wedi'i gwneud hyd yma ond lle maent ar ddod. Paratowyd mapiau gan yr Arolwg Ordans yn dangos ffiniau etholaethau ac awdurdodau lleol presennol, yn ogystal â darparu'r data i'n galluogi i baratoi mapiau yn dangos ein hargymhellion dros dro a'n rhai diwygiedig. Rydym yn cydnabod y cymorth a gafwyd o'r ffynonellau hyn gyda diolch.
29. Fel a soniwyd ym mharagraff 2, ystyriwyd y diwygiadau i'r siroedd cadwedig a wnaed gan Orchymyn y Siroedd Cadwedig (Diwygiad i Ffiniau) (Cymru) 2003. O fewn siroedd cadwedig, rydym wedi ystyried y ffiniau awdurdod lleol fel rhai sy'n adlewyrchu patrwm y weinyddiaeth leol bresennol ac fel dangosydd cysylltiadau lleol. Yn benodol, rydym wedi parhau'r polisi o ddefnyddio adrannau etholiadol fel ein "blociau adeiladu" ar gyfer yr etholaethau. Mae rhan fwyaf y pleidiau gwleidyddol yn defnyddio adrannau etholiadol fel sail i'w gweithgareddau lleol ac maent fel arfer yn adlewyrchu meysydd o ddiddordeb cyffredin yn dda.
30. Lle gwnaed Gorchmynion yn adolygu ffiniau adran etholiadol, ystyriwyd y ffiniau newydd os gwnaed y Gorchymyn cyn 1 Mai 2004. Byddai dewis unrhyw ddyddiad diweddarach wedi arwain o bosib at ddiwygiadau i etholaethau ar y funud olaf ac felly heb ddigon o amser i ymgynghori.
31. Paratowyd a chyhoeddwyd llyfryn gan ein rhagflaenwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg, a ddisgrifiodd y digwyddiadau yn ystod adolygiad cyffredinol a'r cyfnodau y gallai'r rheiny a ddymunai roi sylwadau ar argymhellion dros dro wneud hynny. Diweddarwyd a chyhoeddwyd fersiwn newydd o'r llyfryn hwn gennym ym mis Mai 2003 dan y teitl "Yr Adolygiad o Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol Cynulliad Cymru yng Nghymru - 2003". Anfonwyd copïau at bencadlys y prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru, at lyfrgelloedd Tŷ'r Cyffredin a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, at bob Aelod Seneddol yng Nghymru a phob Aelod o Gynulliad Cymru, ac at bob awdurdod lleol yn ogystal â chyrrff neu unigolion eraill â diddordeb a ofynnodd am gopi. Roedd y llyfryn hefyd ar gael ar ein gwefan ac roedd copïau ar gael hefyd ym mhob un o'r ymchwiliadau lleol. Roedd y llyfryn yn cynnwys ein datganiad ar y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a atgynhyrchir yn Atodiad D.

C. CONDUCT OF THE REVIEW

Introductory Comments

27. We followed the practice of our predecessors by meeting representatives of all the political parties in Wales represented in the House of Commons in order to provide them with an understanding of the Rules under which we operated and to afford them an opportunity to question us about the conduct of our review. We did not invite comment on any aspect of our work leading to the formulation of our provisional recommendations such as, for instance, the relative weights to be given to the individual rules. We considered it wise to arrive at, and to be seen to arrive at, our recommendations from a position of strict impartiality and independence.
28. The Office for National Statistics (on behalf of the Registrar General for England and Wales) provided us with the electorates of local authorities, electoral divisions, and existing constituencies. Electoral registration staff in local authorities provided electorates at the enumeration date for areas where Orders making changes to local government areas had yet to be made but were imminent. Ordnance Survey prepared maps showing the boundaries of existing constituencies and local authorities, as well as providing the data to enable us to prepare maps showing our provisional and revised recommendations. We gratefully acknowledge the help we have received from these sources.
29. As mentioned in paragraph 2, we took into account the amendments to the preserved counties made by The Preserved Counties (Amendment to Boundaries) (Wales) Order 2003. Within preserved counties we have had regard to the local authority boundaries as reflecting the pattern of existing local administration and as an indicator of local ties. In particular, we have continued the policy of using electoral divisions as our “building blocks” for the constituencies. Most political parties use electoral divisions as the basis of their local activities and they usually provide a good reflection of areas of common interest.
30. Where Orders had been made revising the boundaries of an electoral division we took the new boundaries into account if the Order was made before 1 May 2004. The choice of any later date might have led to last-minute revisions to constituencies and therefore insufficient time for consultation.
31. Our predecessors prepared and published a booklet in both Welsh and English, which described the course of events during a general review and the stages at which those who wished to comment on provisional recommendations could do so. We updated and published a new version of this booklet in May 2003 under the title “The Review of Parliamentary Constituencies and of Welsh Assembly Electoral Regions in Wales - 2003”. Copies were sent to the headquarters of the main political parties in Wales, to the libraries of the House of Commons and the National Assembly for Wales, to all Welsh Members of Parliament and Assembly Members, and to every local authority as well as to other interested bodies or individuals who requested a copy. The booklet was also made available on our web site and copies were also made available at each of the local inquiries. The booklet included our statement on the use of Welsh and English which is reproduced in Appendix D.

Ystyried cynlluniau amgen ar gyfer ffiniau etholaethau

32. Ein man cychwyn oedd cyfrifo hawl damcaniaethol am seddi ym mhob sir gadwedig, h.y. nifer yr etholwyr yn y sir gadwedig wedi'u rhannu â'r cwota etholiadol. Ystyriwyd a fyddai'r hawl damcaniaethol wedi'i dalgrynnu i lawr neu i fyny i'r cyfanrif agosaf yn arwain at ddsbarthu seddi'n foddhaol. Rhaid oedd cofio na fyddai'n gwneud hyn o reidrwydd gan fod rhaid i ni ystyried ffactorau eraill fel cysylltiadau lleol a tharfu posibl ar drefniadau presennol. Dangosir yr hawl damcaniaethol i seddi ynghyd â'r nifer a ddyrennir mewn gwirionedd yn Atodiad J.
33. Rhaid oedd archwilio hefyd a ellid cyflawni canlyniad mwy boddhaol trwy ystyried dwy sir gadwedig gyda'i gilydd, sy'n gyson ag effaith Rheol 5, yn hytrach na'u hystyried ar wahân. Casglwyd mai ystyried dwy sir gadwedig gyda'i gilydd fyddai'n rhoi'r canlyniad gorau yn achos Gwent a Morgannwg Ganol.
34. Ar gyfer pob sir gadwedig, neu ddwy sir o'r fath a ystyrir gyda'i gilydd, archwiliwyd cynlluniau amgen ar gyfer dosbarthu seddi. Yn nodweddiadol, ystyriwyd tri neu bedwar cynllun ym mhob achos, gyda dosbarthiad presennol yn un ohonynt. Dangosodd pob cynllun faint pob etholaeth mewn perthynas â'r cwota etholiadol a chyfartaledd y sir. Ystyriwyd manteision ac anafanteision pob cynllun gan ystyried Rheolau 4-8 cyn cyrraedd ein hargymhelliaid dros dro.
35. Er gwaethaf ystyried sawl cynllun, nid oeddem bob amser yn gallu argymhell etholaethau gydag etholwyr mor agos at y cwota etholiadol ag y byddem wedi dymuno. Yn rhannol, roedd hyn oherwydd bod hawl damcaniaethol yn aml yn gwyro'n sylweddol o gyfanrif ac roedd rhaid ei dalgrynnu i fyny neu i lawr gan greu gwahaniaethau sylweddol rhwng cyfartaleddau siroedd. Yn fwy pwysig, fodd bynnag, roedd oherwydd bod rhaid i ni ystyried y ffactorau amrywiol a ymgorfforir yn y Rheolau a chael cydbwysedd rhyngddynt.

Cyhoeddi argymhellion dros dro

36. Hysbysebwyd ein hargymhellion dros dro mewn papurau newydd lleol a ddsberthir ym mhob etholaeth yng Nghymru. Dywedwyd wrth aelodau o'r cyhoedd am leoedd ym mhob etholaeth lle byddai manylion ein cynigion ar gael i'w harchwilio. Sicrhawyd bod yna ddsbarthiad eang er mwyn cyrraedd cynifer o etholwyr â phosibl. Seiliwyd y dewis o bapurau newydd ar gyngor asiantau'r wasg ac ar yr hyn a oedd yn foddhaol yn ôl ein rhagflaenwyr. Cyhoeddwyd hysbysiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a'u rhoi yn swyddfeydd a llyfrgelloedd y cyngor a manau eraill yn ôl cyngor yr awdurdodau lleol unigol. Lluniwyd mapiau yn dangos ffiniau adrannau etholiadol i gyfleu ein hargymhellion a chawsant eu harddangos gyda'r hysbysiadau statudol er mwyn cynorthwyo etholwyr wrth ystyried ein cynigion. Roedd ein hargymhellion dros dro hefyd ar gael ar wefan y Comisiwn.
37. Anfonwyd copïau o bob hysbysiad at: awdurdodau lleol, pencadlysoedd y prif bleidiau gwleidyddol, llyfrgelloedd Tŷ'r Cyffredin a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac at Aelodau Seneddol unigol yng Nghymru ac Aelodau'r Cynulliad. Trefnwyd hefyd trwy'r Swyddfa Wybodaeth Ganolog i roi gwybod i bapurau newydd cenedlaethol a lleol eraill ac i sefydliadau newyddion radio a theledu am ein hargymhellion dros dro.

Consideration of alternative schemes for constituency boundaries

32. Our starting point was to calculate a theoretical entitlement of seats in each preserved county, i.e. the number of electors in the preserved county divided by the electoral quota. We considered whether the theoretical entitlement rounded up or down to the nearest whole number would lead to a satisfactory distribution of seats. We had to bear in mind that it would not necessarily do so because of the regard we had to pay to other factors such as local ties and possible disruption to existing arrangements. The theoretical entitlement to seats together with the number actually allocated is shown in Appendix J.
33. We also had to examine whether a more satisfactory outcome could be achieved by considering two preserved counties together, which is consistent with the effect of Rule 5, rather than considering them separately. We concluded that considering two preserved counties together would give the best outcome in the case of Gwent and Mid Glamorgan.
34. For each preserved county, or two such counties considered together, we examined alternative schemes for the distribution of seats. Typically, three or four schemes were considered in each case, one of them being the existing distribution. Each scheme showed the size of every constituency in relation to the electoral quota and to the county average. We considered the advantages and disadvantages of each scheme having regard to Rules 4-8 before arriving at our provisional recommendation.
35. We were not always able, despite considering several schemes, to recommend constituencies with electorates as close to the electoral quota as we would have wished. In part this was due to the fact that the theoretical entitlement often departed significantly from a whole number and had to be rounded up or down thus producing sizeable differences between county averages. More importantly, however, it was due to the fact that we had to take account of, and strike a balance between, the various factors embodied in the Rules.

Publication of provisional recommendations

36. Our provisional recommendations were advertised in local newspapers circulating in each constituency in Wales. Members of the public were advised of places within each constituency where details of our proposals would be deposited for inspection. We ensured that there was a wide coverage so as to reach as many electors as possible. The selection of newspapers was based on the advice of our press agents and on what our predecessors had found to be satisfactory. Notices were published in both Welsh and English and deposited in council offices and libraries and such places that the individual local authorities advised. Maps showing electoral division boundaries were produced to illustrate our recommendations and were displayed with the statutory notices in order to assist electors in considering our proposals. Our provisional recommendations were also made available on the Commission's web site.
37. Copies of all notices were sent to: local authorities, the headquarters of the main political parties, the libraries of the House of Commons and the National Assembly for Wales and to individual Welsh Members of Parliament and Assembly Members. We also arranged through the Central Office of Information for other national and local newspapers and radio and television news organisations to be informed of our provisional recommendations.

38. Roedd rhaid i hysbysiadau cyhoeddus yn hysbysebu ein hargymhellion ddatgan y byddai cynrychiolaethau a wnaed i ni o fewn y cyfnod statudol o un mis o'r dyddiad cyhoeddi yn cael eu hystyried. Fel y digwyddodd, bu modd i ni ystyried cynrychiolaethau hwyr, cyhyd ag y cawsant eu derbyn heb fod yn hwyrach nag wythnos cyn dyddiad ymchwiliad lleol.

Ymchwiliadau Lleol

39. Yn unol â thelerau Adran 6(2) Deddf 1986 mae angen i ni gynnal ymchwiliad lleol pan fo awdurdod lleol neu gorff o 100 o etholwyr neu fwy sydd â diddordeb yn gwrthwynebu ein cynigion cyhoeddedig, cyhyd â bod y gwrthwynebiad yn ymwneud ag etholaeth lle rydym wedi argymhell newid. O ganlyniad i gynrychiolaethau o'r fath, roedd angen i ni gynnal ymchwiliadau lleol yng Nghlwyd, Gwent, Gwynedd, Morgannwg Ganol a De Morgannwg.
40. Yn unol â thelerau Adran 6(1) Deddf 1986 gallwn achosi cynnal ymchwiliad lleol os credwn ei fod yn addas. Roedd natur y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ymwneud â'r argymhellion dros dro ar gyfer Gorllewin Morgannwg yn golygu y penderfynwyd cynnal ymchwiliad lleol yn yr ardal honno hefyd.
41. Roedd yn amlwg yn ein hysbysiadau bod yr ymchwiliadau yn agored i unrhyw berson neu gynrychiolydd corff a ddymunai gyflwyno barn am gyfansoddiad neu enwau'r etholaethau a argymhellwyd gennym. Nid y rheiny a wnaeth gynrychiolaethau ysgrifenedig yn unig a gafodd fynychu'r ymchwiliadau. Fodd bynnag, hoffem bwysleisio nad oedd peidio â mynychu ymchwiliad yn penderfynu unrhyw ddadl a gyflwynwyd yn ysgrifenedig cyn yr ymchwiliad. Rydym wedi archwilio pob cynrychiolaeth, p'un ai'n ysgrifenedig neu ar lafar mewn ymchwiliad.
42. Yn ôl ein cais, penodwyd panel o Gomisiynwyr Cynorthwyol gennych yr oedd modd i ni ddewis aelodau ohonynt i gynnal ymchwiliadau lleol. Ym mhob ymchwiliad, penodwyd cyfieithwyr i gynorthwyo fel y gallai'r rheiny a ddymunai gyflwyno eu tystiolaeth yn Gymraeg wneud hynny. Mewn gwirionedd, siaradwyd Cymraeg yn 3 o'r ymchwiliadau, yn enwedig yng Ngwynedd ac i raddau llai yng Nghlwyd a Morgannwg Ganol.
43. Defnyddiodd y cyfieithwyr offer cyfieithu ar y pryd gyda chlustffonau i'r rheiny a fynychodd ac ni chawsom wybod am unrhyw broblemau mawr yn y cyfieithu ei hun. Hoffem gofnodi ein diolch i'r cyfieithwyr a gynorthwyodd yn effeithlon yn yr ymchwiliadau lleol.
44. Cafodd hysbysiadau yn hysbysebu'r ymchwiliadau lleol eu cyhoeddi ar 12 Mai 2004 yn yr un modd â hysbysiadau am ein hargymhellion dros dro. Roedd yr ymchwiliad cyntaf ym Mhenarth, De Morgannwg yn dechrau ar 24 Mehefin 2004 ac roedd yr olaf yn Abertawe, Morgannwg Ganol yn dechrau ar 13 Gorffennaf 2004. Dosbarthwyd copiâu o bob cynrychiolaeth a dderbyniwyd, ynghyd â chrynodeb, yn y cyfeiriadau a restrwyd yn y papurau newydd lleol er mwyn i'r cyhoedd eu harchwilio a dosbarthwyd y crynodeb i bawb â diddordeb. Lle cyflwynwyd gwrthgynigion, cafodd y rhain eu cynnwys gyda'r cynrychiolaethau a ddosbarthwyd a'u hamlygu yn y crynodeb.

38. The public notices advertising our recommendations had to state that representations made to us within the statutory one-month period from the date of publication would be taken into consideration. In the event we were able to take account of late representations, provided they were received no later than one week before the date of a local inquiry.

Local Inquiries

39. Under the terms of Section 6(2) of the 1986 Act we are required to hold a local inquiry when an interested local authority or a body of 100 or more electors objects to our published proposals, provided that the objection concerns a constituency where we have recommended an alteration. As a result of such representations we were required to hold local inquiries in Clwyd, Gwent, Gwynedd, Mid Glamorgan, and South Glamorgan.
40. Under the terms of Section 6(1) of the 1986 Act we may cause a local inquiry to be held if we think fit. The nature of the representations received in respect of our provisional recommendations for West Glamorgan were such that we also decided to hold a local inquiry in that area.
41. It was made clear in our notices that the inquiries were open to any person or representative of a body who wished to present a view about the composition or names of the constituencies we had recommended. Attendance at the inquiries was not restricted to those who had made written representations. However, we wish to stress that non attendance at an inquiry was not fatal to any argument submitted in writing before the inquiry. We have examined all representations, whether in written form or presented orally at an inquiry.
42. At our request you appointed a panel of Assistant Commissioners from which we could select members to conduct local inquiries. At all the inquiries interpreters were appointed to assist so that those who wished to present their evidence in Welsh could do so. Welsh was in fact spoken at 3 of the inquiries, particularly in Gwynedd and to a lesser extent in Clwyd and Mid Glamorgan.
43. The interpreters used instantaneous translation equipment with ear-phones for those in attendance and we were informed of no major problems in the interpretation itself. We wish to record our gratitude to the interpreters who assisted efficiently at the local inquiries.
44. Notices advertising the local inquiries were published on 12 May 2004 in the same way as notices of our provisional recommendations. The first inquiry was in Penarth, South Glamorgan beginning on 24 June 2004 and the last was in Swansea, West Glamorgan beginning on 13 July 2004. Copies of all representations received, together with a summary, were deposited for public inspection at the addresses listed in the local newspapers and the summary circulated to interested parties. Where counter-proposals were submitted these were included with the representations placed on deposit and highlighted in the summary.

45. Yn dilyn arfer sefydledig, penderfynwyd na fyddem yn cael ein cynrychioli yn yr ymchwiliadau. Fodd bynnag, mynychodd aelodau o'n hysgrifenyddiaeth i helpu'r ymchwiliad gael ei gynnal yn ddidrafferth ac i chwarae rôl arsylwyr. Roedd ein llyfryn gwybodaeth (gweler paragraff 31 uchod), a oedd yn nodi'r meini prawf yr oedd rhaid i ni eu cymhwyso a'r ffactorau a ystyriwyd, ar gael ym mhob ymchwiliad. Roedd y wybodaeth hon yn ffurfio sail y datganiadau a wnaed gan y Comisiynydd Cynorthwyol ar ddechrau pob ymchwiliad.
46. Defnyddiwyd cofnodwyr air am air i lunio trawsgrifiadau o ddigwyddiadau pob ymchwiliad. Roedd y rhain ar gael i'r Comisiynwyr Cynorthwyol perthnasol i'w helpu wrth baratoi eu hadroddiadau. Ar ôl i ni ystyried adroddiadau'r Comisiynwyr Cynorthwyol a llunio ein casgliadau, roedd y trawsgrifiadau ar gael i bobl â diddordeb ar gais.
47. Gwnaeth ansawdd gwaith ysgrifenyddwyr y trawsgrifiadau argraff dda arnom ac rydym yn ddiolchgar iddynt am eu heffeithlonrwydd wrth lunio'r trawsgrifiadau yn gyflym.
<p>Rhondda CC Rhondda Cynon Taff County Borough electoral divisions: Cwm Clydach, Cymmer, Ferndale, Llwyn-y-pia, Maerdy, Pentre, Pen-y-graig, Porth, Tonypany, Trealaw, Treherbert, Treorchy, Tylorstown, Ynyshir, Ystrad.</p>	50,389
<p>Torfaen CC Torfaen County Borough electoral divisions: Abersychan, Blaenavon, Brynwern, Coed Eva, Cwmyniscoy, Fairwater, Greenmeadow, Llantarnam, New Inn, Panteg, Pontnewydd, Pontnewynydd, Pontypool, St.Cadocs and Penygarn, St.Dials, Snatchwood, Trevethin, Two Locks, Upper Cwmbran, Wainfelin.</p>	61,371

Yr adrannau etholiadol y cyfeirir atynt yw'r adrannau etholiadol newydd fel a sefydlwyd gan y Gorchmynion canlynol:


- Gorchymyn Trefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 1994
- Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Trefniadau Etholiadol) 1998
- Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Trefniadau Etholiadol) 1998
- Gorchymyn Trefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 1994
- Gorchymyn Sir Fynwy (Newidiadau Etholiadol) 2002
- Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Casnewydd (Newidiadau Etholiadol) 2002
- Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Trefniadau Etholiadol) 1998 (a ddiwygiwyd gan Orchymyn Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg (Llanhari, Pont-y-clun, Pen-llin, Llanddunwyd a Phendeulwyn) 2002)
- Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Torfaen (Newidiadau Etholiadol) 2002

Mae rhifau'r adrannau etholiadol ar y map sy'n dilyn yn cyfateb â'r rhifau ar y rhestr o adrannau etholiadol ym mhob awdurdod unedol yn Atodiad K.

The electoral divisions referred to are the new electoral divisions as constituted by the following Orders:

- The County Borough of Blaenau Gwent Electoral Arrangements Order 1994
- The County Borough of Bridgend (Electoral Arrangements) Order 1998
- The County Borough of Caerphilly (Electoral Arrangements) Order 1998
- The County Borough of Merthyr Tydfil Electoral Arrangements Order 1994
- The County of Monmouth (Electoral Changes) Order 2002
- The County Borough of Newport (Electoral Changes) Order 2002
- The County Borough of Rhondda Cynon Taff (Electoral Arrangements) Order 1998 (amended by The Rhondda Cynon Taff and Vale of Glamorgan (Llanharry, Pont-y-clun, Penllyn, Welsh St. Donats and Pendoylan) Order 2002)
- The County Borough of Torfaen (Electoral Changes) Order 2002

The electoral division numbers on the map that follows correspond with the numbered list of electoral divisions within each unitary authority that can be found in Appendix K.



Final Recommendations for Gwent and Mid Glamorgan


KEY

Boundaries

-  Electoral Division
-  Unitary Authority
-  Proposed Constituency

- A - Caerffili
- B - Blaenau Gwent
- C - Torfaen
- D - Monmouthshire
- E - Newport
- F - Bridgend
- G - Rhondda, Cynon, Taf
- H - Merthyr Tydfil

2001	2001
Name	Area
1 BLANAU GWENT CC	25,130
2 BRIDGEND CC	37,046
3 CAERFFILI CC	64,136
4 CYNON VALLEY CC	46,272
5 GLANWYN CC	36,215
6 MERTHYR TYDFIL AND RHYMERY CC	25,478
7 MONMOUTH CC	67,471
8 NEWPORT EAST CC	36,415
9 NEWPORT WEST CC	60,983
10 RHOSSILI CC	54,711
11 SOUTHGLOUCESTERSHIRE CC	50,584
12 TORFAEN CC	41,371



This map is based on the Ordnance Survey map with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office.
© Crown Copyright

IV. GWYNEDD

115. Roedd gan sir gadwedig Gwynedd, fel a gyfansoddwyd adeg yr adolygiad cyffredinol diwethaf, bedair etholaeth gyda 185,628 o etholwyr ar ddyddiad y rhifiad. Mae nifer etholwyr y pedair sedd bresennol yn amrywio o 33,723 yn etholaeth Meirionnydd Nant Conwy i 55,009 yn etholaeth Conwy. O ganlyniad i newidiadau yn sgil Gorchymyn Siroedd Cadwedig (Newid Ffiniau) (Cymru) 2003, roedd gan ardal sir gadwedig bresennol Gwynedd 141,652 o etholwyr ar y dyddiad cyfrif. Mae cyfanswm nifer yr etholwyr, wrth ei rannu gan y cwota etholiadol (55,640) yn rhoi hawl damcaniaethol i 2.55 sedd.

Argymhellion Dros Dro

116. Ni wnaed unrhyw newidiadau i etholaeth bresennol Ynys Môn gan ein hargymhellion dros dro. Fodd bynnag, mae rhaniad arfaethedig gweddill y sir yn ddwy etholaeth yn cynnwys newid mawr i'r trefniadau presennol. Disgrifir manylion yr argymhellion dros dro isod.
117. Fel a soniwyd uchod yng nghyd-destun Clwyd, y datblygiad pwysicaf ers yr adolygiad cyffredinol diwethaf fu'r newid i'r ffin rhwng siroedd cadwedig Clwyd a Gwynedd. Golyga hyn fod ardaloedd etholaethau presennol Conwy a Meirionnydd Nant Conwy a arferai fod yn sir gadwedig Gwynedd bellach yn sir gadwedig Clwyd. Wrth archwilio goblygiadau newid y ffin, astudiwyd y posibilrwydd o ystyried Clwyd a Gwynedd gyda'i gilydd, ond daethom i'r casgliad y gellid trin y ddwy sir gadwedig yn fwy boddhaol drwy eu trin ar wahân ac y byddai hyn yn cyd-fynd â Rheol 4 yn well (gweler paragraff 126 isod).
118. Yn yr holl amgylchiadau, ac wrth ystyried yn benodol y lleihad sylweddol yng nghyfanswm nifer yr etholwyr o ganlyniad i newid ffin y sir gadwedig, penderfynwyd y dylid lleihau nifer yr etholaethau yng Ngwynedd o bedair i dair.
119. Nodwyd bod etholaeth bresennol Ynys Môn yn gydffiniol â Sir Fôn ac Ynys Môn ac, er bod nifer yr etholwyr 5,809 (10.4%) islaw'r cwota etholiadol, mae'n 2,614 (5.5%) uwchlaw maint cyfartalog etholaethau yng Ngwynedd os dyrennir tair sedd i'r sir gadwedig. Penderfynwyd felly cadw etholaeth bresennol Ynys Môn.
120. Penderfynwyd creu'r ddwy sedd a oedd yn weddill trwy ddefnyddio ardaloedd Pwyllgor Ardal Cyngor Sir Gwynedd yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd (yr ardaloedd Cyngor Dosbarth blaenorol). Byddai un etholaeth, o'r enw etholaeth Arfon, yn cynnwys yr adrannau etholiadol sy'n ffurfio ardal Pwyllgor Ardal Arfon. Byddai'r etholaeth arall, o'r enw etholaeth Dwyfor Meirionnydd, yn cynnwys yr adrannau etholiadol sy'n ffurfio ardaloedd Pwyllgor Ardal Dwyfor a Phwyllgor Ardal Meirionnydd. Cydnabuwyd bod y cynnig hwn yn golygu newid sylweddol i'r trefniadau presennol ac y gallai wanhau'r cysylltiadau hanesyddol rhwng tref Caernarfon a hen sir Gaernarfon. Fodd bynnag, lleddfwyd yr anfanteision hynny gan y ffaith bod yr etholaethau arfaethedig yn seiliedig ar ardaloedd a ddefnyddir ar hyn o bryd at ddibenion gweinyddu llywodraeth leol, ac roeddem o'r farn bod y cynnig yn rhoi'r ateb gorau ar gyfer sir gadwedig Gwynedd gyfan.

IV. GWYNEDD

115. The preserved county of Gwynedd, as constituted at the time of the last general review, had four constituencies with an electorate, at the enumeration date, of 185,628. The electorates of the four existing seats range from 33,723 in the Meirionnydd Nant Conwy constituency to 55,009 in the Conwy constituency. As a result of changes brought about by the Preserved Counties (Amendment to Boundaries) (Wales) Order 2003, the area of the present preserved county of Gwynedd had an electorate, at the enumeration date, of 141,652. The total number of electors, when divided by the electoral quota (55,640), gives a theoretical entitlement to 2.55 seats.

Provisional Recommendations

116. Our provisional proposals left the existing constituency of Ynys Môn unchanged. However, the proposed division of the rest of the county into two constituencies involves a major change to existing arrangements. Details of the provisional recommendations are described below.
117. As mentioned above in the context of Clwyd, the most important development since the last general review has been the change to the boundary between the preserved counties of Clwyd and Gwynedd. This means that areas of the existing constituencies of Conwy and Meirionnydd Nant Conwy that were previously within the preserved county of Gwynedd are now within the preserved county of Clwyd. In the course of examining the implications of the boundary change, we looked at the possibility of considering Clwyd and Gwynedd together, but we concluded that the two preserved counties could be dealt with more satisfactorily if looked at separately and that this would accord better with Rule 4 (see paragraph 126 below).
118. In all the circumstances, and having regard in particular to the substantial reduction in the total electorate resulting from the change to the boundary of the preserved county, we decided that the number of constituencies in Gwynedd should be reduced from four to three.
119. We noted that the existing Ynys Môn constituency is coterminous with both the County of the Isle of Anglesey and the island of Anglesey and that although the electorate is 5,809 (10.4%) below the electoral quota, it is 2,614 (5.5%) above the average size of constituency in Gwynedd if three seats are allocated to the preserved county. We therefore decided to retain the existing Ynys Môn constituency.
120. We decided to create the two remaining seats by utilising the Gwynedd County Council Area Committee areas of Arfon, Dwyfor and Meirionnydd (the former District Council areas). One constituency, to be called the Arfon constituency, would consist of the electoral divisions making up the Arfon Area Committee area. The other constituency, to be called the Dwyfor Meirionnydd constituency, would consist of the electoral divisions making up both the Dwyfor Area Committee and the Meirionnydd Area Committee areas. We acknowledged that this proposal involved a significant alteration to the existing arrangements and might weaken the historic ties between the town of Caernarfon and the former county of Caernarvonshire. Those disadvantages, however, were mitigated by the fact that the proposed constituencies were based on areas currently used for purposes of local government administration, and we took the view that the proposal produced the best solution for the preserved county of Gwynedd as a whole.

121. Penderfynwyd felly dyrannu tair sedd i Wynedd. Dyma'r enwau, y dynodiadau a nifer yr etholwyr ar ddyddiad y rhifiad ar gyfer y tair sedd a argymhellwyd dros dro:

Arfon CC	42,998
Dwyfor Meirionnydd CC	48,823
Ynys Môn CC	49,831

Ymchwiliad Lleol

122. Ar ôl cyhoeddi ein hargymhellion dros dro ar gyfer Gwynedd, derbyniwyd 72 o gynrychiolaethau ysgrifenedig, yr oedd 9 ohonynt yn cymeradwyo ein hargymhellion ac 1 ohonynt heb unrhyw sylwadau amdanynt. I'r graddau yr oedd y cynrychiolaethau yn gwrthwynebu, cânt eu hystyried isod. Roedd angen ymchwiliad lleol oherwydd y cynrychiolaethau a gawsom. Fel a esboniwyd ym mharagraff 64 uchod, penderfynwyd cynnal ymchwiliad ar y cyd i ymdrin â siroedd cadwedig Clwyd a Gwynedd. Agorwyd hwn ar 6 Gorffennaf 2004 ym Mangor am ddiwrnod ac yn Rhuthun ar 8 Gorffennaf 2004 am ddiwrnod.
123. Ynglŷn â sir gadwedig Gwynedd, adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol i ni mai dyma'r prif faterion a ystyriwyd yn yr ymchwiliad:
- ychwanegu Bangor a'r rhannau hynny o etholaeth bresennol Conwy sy'n parhau yng Ngwynedd at etholaeth bresennol Caernarfon y dylid ei chadw;
 - cadw etholaethau presennol Caernarfon, Conwy, a Meirionnydd Nant Conwy; a
 - Chomisiwn Richard.
124. Ystyriodd y Comisiynydd Cynorthwyol y berthynas rhwng Bangor a Chaernarfon, a gwestiynwyd gan rai partion, ond casglodd fod gan y ddwy gymuned lawer mwy yn gyffredin nag yr oedd rhai wedi awgrymu. Nid oedd yn ystyried y byddai Bangor dan anfantais trwy gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Arfon. Ystyriodd y Comisiynydd Cynorthwyol wrthwynebiadau eraill i'r cynnig, ond casglodd bod argymhellion dros dro'r Comisiwn ynghylch Arfon a Dwyfor Meirionnydd yn ymarferol ac yn debygol o gynrychioli eu hetholaethau yn effeithiol.
125. Adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol fod y gwrthgynnig i ymgorffori Bangor a'r rhannau hynny o etholaeth bresennol Conwy sy'n parhau yng Ngwynedd yn etholaeth bresennol Caernarfon wedi'i gynnig gan nifer o unigolion ond ni chawsant gefnogaeth gan unrhyw un o'r cynghorau lleol nac unrhyw un o'r pleidiau neu ganghennau gwleidyddol a wnaeth gynrychiolaethau. Nid oedd y rhai a wnaeth y cynnig hwn wedi rhoi sylw i nifer etholwyr yr etholaeth arfaethedig nag effaith debygol y cynnig ar etholaethau eraill. Adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol y byddai'r anghydbwysedd rhwng y seddi canlyniadol yn 38,371 a byddai hyn yn hollol annerbyniol yn ei farn ef.
126. Adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol y byddai'r gwrthgynnig amgen, sef cadw'r sefyllfa bresennol, yn cynnwys gwyro oddi wrth Rheol 4, sy'n amodi i bob diben cadw etholaeth i un sir (gadwedig) os yw'n ymarferol. Er bod y Rheolau'n ymgorffori rhywfaint o hyblygrwydd, casglodd y Comisiynydd Cynorthwyol na fyddai modd cyfiawnhau'r Comisiwn yn gwyro o Rheol 4 yn yr achos hwn nag yn fwy cyffredinol yn siroedd cadwedig Gwynedd a Chlwyd.

121. Accordingly we decided to allocate three seats to Gwynedd. The names, designations and enumeration date electorates for the three provisionally recommended seats are:

Arfon CC	42,998
Dwyfor Meirionnydd CC	48,823
Ynys Môn CC	49,831

Local Inquiry

122. Following publication of our provisional recommendations for Gwynedd we received 72 written representations, of which 9 approved and 1 made no comment on our recommendations. To the extent that the representations raised objections, they are considered below. The representations we received necessitated a local inquiry. As explained at paragraph 64 above, we decided to hold a joint inquiry to cover both Clwyd and Gwynedd preserved counties. This was opened on 6th July 2004 in Bangor for one day and in Ruthin on 8th July 2004 for one day.
123. In respect of the preserved county of Gwynedd the Assistant Commissioner reported to us that the main issues considered at the inquiry were:
- the addition of Bangor and those parts of the current Conwy constituency which remain in Gwynedd to the current Caernarfon constituency, which should be retained;
 - the retention of the existing Caernarfon, Conwy, and Meirionnydd Nant Conwy constituencies; and
 - the Richard Commission.
124. The Assistant Commissioner considered the relationship between Bangor and Caernarfon, which had been questioned by some parties, but he concluded that the two communities had much more in common than some had suggested. He did not consider that Bangor would be disadvantaged if included in the proposed Arfon constituency. The Assistant Commissioner considered other objections to the proposal, but concluded that the Commission's provisional recommendations in respect of Arfon and Dwyfor Meirionnydd were practicable and likely to achieve effective representation of their respective electorates.
125. The Assistant Commissioner reported that the counter proposal that Bangor and those parts of the current Conwy constituency which remain in Gwynedd be incorporated in the existing Caernarfon constituency was proposed by a number of individuals but was not supported by any of the local councils or by any of the political parties or branches that made representations. Those who made this proposal had not addressed the size of the electorate of the proposed constituency or the likely impact of the proposal on other constituencies. The Assistant Commissioner reported that the disparity between the resultant seats would be 38,371 and in his opinion this would be wholly unacceptable.
126. The Assistant Commissioner reported that the alternative counter-proposal, the retention of the status quo, would involve a departure from Rule 4, which provides in effect that a constituency be confined if practicable to a single (preserved) county. Although the Rules incorporate a measure of flexibility, the Assistant Commissioner concluded that the Commission would not be justified in departing from Rule 4 in this instance nor more generally in the preserved counties of Gwynedd and Clwyd.

127. Adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol fod nifer o unigolion a chyrrff wedi cymell na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach yn gysylltiedig â'r adolygiad cyfredol tan ei bod yn hysbys pa newidiadau a allai ddigwydd yng ngoleuni argymhellion Comisiwn Richard. Nododd y Comisiynydd Cynorthwyol, er bod Comisiwn Richard wedi cwblhau ei waith ac adrodd erbyn dyddiad yr ymchwiliad lleol, fod y Comisiwn yn atebol i ddyletswydd statudol i gwblhau'r adolygiad o fewn cyfnod sefydlog ac y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar yr argymhellion hynny gan Gomisiwn Richard a allai wrthdaro â thestun yr adolygiad hwn. Ystyriodd na ellid sicrhau a fyddai ei argymhellion yn cael eu gweithredu ac, os felly, pryd. Yn yr amgylchiadau hyn, ystyriodd y Comisiynydd Cynorthwyol nad oedd gan y Comisiwn ddewis arall ond cwblhau ei adolygiad cyfredol. Fel y bydd yn amlwg o'r hyn a ddywedwyd ym mharagraff 49, rydym yn rhannu barnau'r Comisiynydd Cynorthwyol ar y mater hwn.

Argymhellion Terfynol

128. Ar ôl ystyried adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol a'r holl gynrychiolaethau a dderbyniwyd, penderfynwyd derbyn holl argymhellion y Comisiynydd Cynorthwyol ynghylch sir gadwedig Gwynedd. Penderfynwyd felly cadarnhau ein hargymhellion dros dro i ddyrannu tair sedd i Wynedd, heb unrhyw newid i etholaeth Ynys Môn a chreu dwy etholaeth newydd, Arfon a Dwyfor Meirionnydd.
129. *Argymhellwn* fabwysiadu ein cynigion ar gyfer sir gadwedig Gwynedd fel a nodir isod.

127. The Assistant Commissioner reported that a number of individuals and bodies urged that no further action be taken in relation to the current review until it was known what changes might take place in the light of the recommendations of the Richard Commission. The Assistant Commissioner noted that, although the Richard Commission had completed its work and reported by the date of the local inquiry, the Commission was subject to a statutory duty to complete the review within a fixed period and that those recommendations of the Richard Commission which might impinge on the subject matter of this review would require primary legislation. He considered that there could be no certainty as to whether, and if so, when, its recommendations might be implemented. In these circumstances, the Assistant Commissioner considered that the Commission had no alternative but to complete its current review. As will be clear from what we have said at paragraph 49 above, we share the Assistant Commissioner's views on this issue.

Final Recommendations

128. Following consideration of the Assistant Commissioner's report and all of the representations we received, we decided to accept all of the Assistant Commissioner's recommendations in respect of the preserved county of Gwynedd. We therefore decided to confirm our provisional recommendations to allocate three seats to Gwynedd, making no change to the Ynys Môn constituency and creating two new constituencies, Arfon and Dwyfor Meirionnydd.
129. ***We recommend*** adoption of our proposals for the preserved county of Gwynedd as detailed below.

GWYNEDD: ETHOLAETHAU A ARGYMHELLIR

Gyda nifer yr etholwyr ar ddyddiad y rhifiad (16 Rhagfyr 2002).

Enw'r sedd, Dynodiad a Chyfansoddiad	Etholwyr
<p>Arfon CC Adrannau etholiadol Sir Gwynedd: Arllechwedd, Bethel, Bontnewydd, Cadnant, Cwm y Glo, Deiniol, Deiniolen, Dewi, Garth, Gerlan, Glyder, Groeslon, Hendre, Hiracl, Llanberis, Llanllyfni, Llanrug, Llanwnda, Marchog, Menai (Bangor), Menai (Caernarfon), Ogwen, Peblig (Caernarfon), Penisarwaun, Pentir, Penygroes, Seiont, Talysarn, Tregarth a Mynydd Llandygái, Waunfawr, Y Felinheli.</p>	42,998
<p>Dwyfor Meirionnydd CC Adrannau etholiadol Sir Gwynedd: Aberdaron, Aberdyfi, Abererch, Abermaw, Abersoch, Bala, Botwnnog, Bowydd a Rhiw, Brithdir a Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd, Bryn-crug/Llanfihangel, Clynnog, Corris/Mawddwy, Criccieth, Diffwys a Maenofferen, Dolbenmaen, Gogledd Dolgellau, De Dolgellau, Dyffryn Ardudwy, Efail-newydd/Buan, Harlech, Llanaelhaearn, Llanbedr, Llanbedrog, Llandderfel, Llanengan, Llangelynin, Llanuwchllyn, Llanystumdwy, Morfa Nefyn, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Dwyrain Porthmadog, Gorllewin Porthmadog, Porthmadog-Tremadog, Gogledd Pwllheli, De Pwllheli, Teigl, Trawsfynydd, Tudweiliog, Tywyn.</p>	48,823
<p>Ynys Môn CC Sir Fôn.</p>	49,831

Mae rhifau'r adrannau etholiadol ar y map sy'n dilyn yn cyfateb â'r rhifau ar y rhestr o adrannau etholiadol ym mhob awdurdod unedol yn Atodiad K.


GWYNEDD: RECOMMENDED CONSTITUENCIES

With electorates at the enumeration date (16 December 2002).


Seat name, Designation and Composition	Electorate
<p>Arfon CC Gwynedd County electoral divisions: Arllechwedd, Bethel, Bontnewydd, Cadnant, Cwm-y-Glo, Deiniol, Deiniolen, Dewi, Garth, Gerlan, Glyder, Groeslon, Hendre, Hiracl, Llanberis, Llanllyfni, Llanrug, Llanwnda, Marchog, Menai (Bangor), Menai (Caernarfon), Ogwen, Peblig (Caernarfon), Penisarwaun, Pentir, Penygroes, Seiont, Talysarn, Tregarth & Mynydd Llandygai, Waunfawr, Y Felinheli.</p>	42,998
<p>Dwyfor Meirionnydd CC Gwynedd County electoral divisions: Aberdaron, Aberdovey, Abererch, Abermaw, Abersoch, Bala, Botwnnog, Bowydd & Rhiw, Brithdir & Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd, Bryn-crug/Llanfihangel, Clynnog, Corris/Mawddwy, Criccieth, Diffwys & Maenofferen, Dolbenmaen, Dolgellau North, Dolgellau South, Dyffryn Ardudwy, Efail-newydd/Buan, Harlech, Llanaelhaearn, Llanbedr, Llanbedrog, Llandderfel, Llanengan, Llangelynin, Llanuwchllyn, Llanystumdwy, Morfa Nefyn, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Porthmadog East, Porthmadog West, Porthmadog-Tremadog, Pwllheli North, Pwllheli South, Teigl, Trawsfynydd, Tudweiliog, Tywyn.</p>	48,823
<p>Ynys Môn CC The County of the Isle of Anglesey.</p>	49,831

The electoral division numbers on the map that follows correspond with the numbered list of electoral divisions within each unitary authority that can be found in Appendix K.

Argymhellion Terfynol ar gyfer Gwynedd



Final Recommendations for Gwynedd



V. POWYS

130. Roedd gan sir gadwedig Powys, fel a gyfansoddwyd adeg yr adolygiad cyffredinol diwethaf, ddwy etholaeth gyda 98,794 o etholwyr ar ddyddiad y rhifiad. Nifer etholwyr y ddwy sedd bresennol yw 45,297 yn etholaeth Montgomeryshire a 53,497 yn etholaeth Brecon and Radnorshire. O ganlyniad i newid yn sgil Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, roedd gan ardal sir gadwedig bresennol Powys 100,152 o etholwyr ar ddyddiad y rhifiad. Mae cyfanswm nifer yr etholwyr, wrth ei rannu gyda'r cwota etholiadol (55,640), yn rhoi hawl damcaniaethol i 1.8 sedd.

Argymhellion Dros Dro

131. Penderfynwyd argymell dim newid i etholaeth Brecon and Radnorshire a newid bach i etholaeth Montgomeryshire.
132. Fel a soniwyd uchod yng nghyd-destun Clwyd, bu newid yn y ffin rhwng sir gadwedig Clwyd a sir gadwedig Powys, sef yr arferai adran etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin fod yng Nghlwyd ond cafodd ei throsglwyddo i Bowys gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Ar hyn o bryd, mae'r adran etholiadol honno'n cael ei chynnwys yn etholaeth bresennol Clwyd South. Penderfynwyd y dylid symud adran etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin o etholaeth Clwyd South a'i chynnwys yn etholaeth Montgomeryshire. Nodwyd y byddai gan hyn y fantais bellach o gynyddu nifer etholwyr etholaeth Montgomeryshire i 46,655 a lleihau'r anghydbwysedd rhwng nifer yr etholwyr yn yr etholaeth honno ac etholaeth Brecon and Radnorshire gyda 53,497 o etholwyr. Dyma'r enwau, y dynodiadau a nifer yr etholwyr ar ddyddiad y rhifiad ar gyfer y ddwy sedd a argymhellir dros dro:

Brecon and Radnorshire CC	53,497
Montgomeryshire CC	46,655

Argymhellion Terfynol

133. Ar ôl cyhoeddi ein hargymhellion dros dro, cawsom 8 cynrychiolaeth ysgrifenedig, yr oedd 6 ohonynt yn cymeradwyo ein hargymhellion. Ar ôl ystyried y ddau gynrychiolaeth a wrthwynebodd, roeddem yn fodlon nad oedd unrhyw ddadl gymhellgar yn erbyn ein hargymhellion dros dro wedi'u cyflwyno. Yng ngoleuni hyn, a'r gefnogaeth a gafwyd i'n cynigion, penderfynwyd cadarnhau ein hargymhellion dros dro ar gyfer dim newid i etholaeth Brecon and Radnorshire ac i gynnwys adran etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin yn etholaeth Montgomeryshire.
134. *Argymhellwn* fabwysiadu ein cynigion ar gyfer sir gadwedig Powys fel a nodir isod.

V. POWYS

130. The preserved county of Powys, as constituted at the time of the last general review, had two constituencies with an electorate, at the enumeration date, of 98,794. The electorates of the two existing seats are 45,297 in the Montgomeryshire constituency and 53,497 in the Brecon and Radnorshire constituency. As a result of a change brought about by the Local Government (Wales) Act 1994, the area of the present preserved county of Powys had an electorate, at the enumeration date, of 100,152. The total number of electors, when divided by the electoral quota (55,640), gives a theoretical entitlement to 1.8 seats.

Provisional Recommendations

131. We decided to recommend no change to the Brecon and Radnorshire constituency and a minor change to the Montgomeryshire constituency.
132. As mentioned above in the context of Clwyd, there has been a change in the boundary between the preserved county of Clwyd and the preserved county of Powys, in that the Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin electoral division was formerly within Clwyd but was transferred to Powys by the Local Government (Wales) Act 1994. That electoral division is currently included in the existing Clwyd South constituency. We decided that the Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin electoral division should be removed from the Clwyd South constituency and included within the Montgomeryshire constituency. We noted that this would have the further advantage of increasing the electorate of the Montgomeryshire constituency to 46,655 and reducing the disparity between the number of electors in that constituency and the Brecon and Radnorshire constituency with 53,497 electors. The names, designations and enumeration date electorates for the two provisionally recommended seats are:

Brecon and Radnorshire CC	53,497
Montgomeryshire CC	46,655

Final Recommendations

133. Following publication of our provisional recommendations we received 8 written representations, of which 6 approved our recommendations. After considering the two representations of objection, we were satisfied that no compelling argument against our provisional recommendations had been put forward. In view of this, and given the support received for our proposals, we decided to confirm our provisional recommendations for no change to the Brecon and Radnorshire constituency and for the inclusion of the Llanrhaedr-ym-Mochnant/Llansilin electoral division within the Montgomeryshire constituency.
134. **We recommend** adoption of our proposals for the preserved county of Powys as detailed below.

POWYS: ETHOLAETHAU A ARGYMHELLIR

Gyda nifer yr etholwyr ar ddyddiad y rhifiad (16 Rhagfyr 2002).

Enw'r sedd, Dynodiad a Chyfansoddiad	Etholwyr
<p>Brecon And Radnorshire CC Adrannau etholiadol Sir Powys: Aber-craf, Bugeildy, Bronllys, Llanfair-ym-Muallt, Bwlch, Crucywel, Cwm-twrch, Diserth a Threcoed, Felin-fâch, Clas-ar-wy, Gwernyfed, Y Gelli, Trefyclo, Llanafanfawr, Llanbadarn Fawr, Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod, Gogledd Llandrindod, De Llandrindod, Llanelwedd, Llangatwg, Llangors, Llangynllo, Llangynidr, Llanwrtyd, Llanllŷr, Maescar/Llywel, Nantmel, Pencraig, Llanandras, Rhaeadr Gwy, St.David Fewnol, St.John, St.Mary, Talgarth, Talybont-ar-Wysg, Tawe-Uchaf, Ynyscedwyn, Yscir, Ystradgynlais.</p>	53,497
<p>Montgomeryshire CC Adrannau etholiadol Sir Powys: Banwy, Aberriw, Blaen Hafren, Caersŵs, Yr Ystog, Dolforwyn, Ffordun, Glantwymyn, Cegidfa, Ceri, Llanbryn-mair, Llandinam, Llandrinio, Llandysilio, Llanfair Caereinion, Llanfihangel, Llanfyllin, Llanidloes, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin, Llansanffraid, Machynlleth, Meifod, Trefaldwyn, Canol y Drenewydd, Dwyrain y Drenewydd, Gogledd y Drenewydd Llanllwchaearn, Gorllewin y Drenewydd Llanllwchaearn, De y Drenewydd, Rhiwcyon, Trewern, Castell y Trallwng, Y Trallwng Gungrog, Y Trallwng Llanerch Hudol.</p>	46,655

Yr adrannau etholiadol y cyfeirir atynt yw'r adrannau etholiadol newydd fel a sefydlwyd gan y Gorchmynion canlynol:

- Gorchmyn Sir Powys (Trefniadau Etholiadol) 1998
- Gorchmyn Powys (Llanbadarn Fynydd, Llanbister ac Abaty Cwm-hir) 2003

Mae rhifau'r adrannau etholiadol ar y map sy'n dilyn yn cyfateb â'r rhifau ar y rhestr o adrannau etholiadol ym mhob awdurdod unedol yn Atodiad K.

POWYS: RECOMMENDED CONSTITUENCIES

With electorates at the enumeration date (16 December 2002).

Seat name, Designation and Composition	Electorate
<p>Brecon And Radnorshire CC Powys County electoral divisions: Aber-craf, Beguildy, Bronllys, Builth, Bwlch, Crickhowell, Cwm-twrch, Disserseth and Trecoed, Felin-fâch, Glasbury, Gwernyfed, Hay, Knighton, Llanafanfawr, Llanbadarn Fawr, Llandrindod East/Llandrindod West, Llandrindod North, Llandrindod South, Llanelwedd, Llangattock, Llangors, Llangunllo, Llangynidr, Llanwrtyd Wells, Llanyre, Maescar/Llywel, Nantmel, Old Radnor, Presteigne, Rhayader, St.David Within, St.John, St.Mary, Talgarth, Talybont-on-Usk, Tawe-Uchaf, Ynyscedwyn, Yscir, Ystradgynlais.</p>	53,497
<p>Montgomeryshire CC Powys County electoral divisions: Banwy, Berriew, Blaen Hafren, Caersws, Churchstoke, Dolforwyn, Forden, Glantwymyn, Guilsfield, Kerry, Llanbrynmair, Llandinam, Llandrinio, Llandysilio, Llanfair Caereinion, Llanfihangel, Llanfyllin, Llanidloes, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin, Llansantffraid, Machynlleth, Meifod, Montgomery, Newtown Central, Newtown East, Newtown Llanllwchaiarn North, Newtown Llanllwchaiarn West, Newtown South, Rhiwcynon, Trewern, Welshpool Castle, Welshpool Gungrog, Welshpool Llanerchydol.</p>	46,655

The electoral divisions referred to are the new electoral divisions as constituted by the following Orders:




- The County of Powys (Electoral Arrangements) Order 1998
- The Powys (Llanbadarn Fynydd, Llanbister and Abbey Cwmhir) Order 2003


The electoral division numbers on the map that follows correspond with the numbered list of electoral divisions within each unitary authority that can be found in Appendix K.

Argymhellion Terfynol ar gyfer Powys

ALLWEDD

Ffiniau

-  Rhanbarth Diholladol
-  Awdurdod Unedol
-  Llohaeth Arfaethedig



Sedd - Ew a Theddi

- 1 - BRECON AND RADNORSHIRE CC
- 2 - MONTGOMERYSHIRE CC

2001
53,497
46,655


Sellir y map hon ar ôp yr Arolwg Ordnans gyda
darnau'd Rhwydwr Dwng Dî Mawrhydi
Dŷ-Hawkebury Caeon

Final Recommendations for Powys

KEY

Boundaries:

-  Electoral Division
-  Unitary Authority
-  Proposed Constituency



Scale Name & Designation

1	BRECON AND RADNORSHIRE CC	2001	51,497
2	MONTGOMERYSHIRE CC		46,655

This map is based on the Ordnance Survey files with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright

VI. DE MORGANNWG

135. Roedd gan sir gadwedig De Morgannwg, fel a gyfansoddwyd adeg yr adolygiad cyffredinol diwethaf, bum etholaeth gyda 317,369 o etholwyr ar ddyddiad y rhifiad. Mae nifer etholwyr y pum sedd bresennol yn amrywio o 59,626 yn etholaeth Cardiff West i 68,698 yn etholaeth Vale of Glamorgan. O ganlyniad i newidiadau yn sgil Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a Gorchymyn (Ardaloedd) Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg 1996, roedd gan ardal sir gadwedig bresennol De Morgannwg 325,150 o etholwyr ar ddyddiad y rhifiad. Mae cyfanswm nifer yr etholwyr, wrth ei rannu gan y cwota etholiadol (55,640), yn rhoi hawl damcaniaethol i 5.84 sedd.

Argymhellion Dros Dro

136. Penderfynwyd argymell yn erbyn newid ffiniau etholaethau Cardiff Central a Cardiff North a gwneud newidiadau i ffiniau etholaethau Cardiff West, Cardiff South and Penarth, a Vale of Glamorgan. Disgrifir y newidiadau a argymhellwyd dros dro isod.

137. Cynigiwyd cadw'r pum etholaeth bresennol, yn amodol ar y newidiadau manwl a ddisgrifir isod, er gwaethaf y byddai'r hawl damcaniaethol o 5.84 sedd ar gyfer y sir gadwedig wedi caniatáu dyrannu chwe sedd yn hytrach na phump. Ystyriwyd yn fanwl ffyrdd posibl o greu ateb chwe sedd i'r sir gadwedig, ond casglwyd na fyddai un ohonynt yn foddhaol, yn bennaf oherwydd yr anghyfleusterau a'r amhariad ar gysylltiadau lleol y byddai aildrefnu etholaethau De Morgannwg yn radical yn eu hachosi. Penderfynwyd y byddai nifer etholwyr y pum etholaeth a gynigiwyd, er eu bod yn uwch na'r cwota etholiadol, o faint derbynol ac ni fyddent yn peri anghydbwysedd annerbyniol fel rhwng etholaethau cymdogol.

138. O ganlyniad i newidiadau i ffiniau awdurdodau lleol a siroedd cadwedig yn sgil Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, mae etholaeth bresennol Bridgend yn croesi'r ffin rhwng siroedd cadwedig Morgannwg Ganol a De Morgannwg yn ardal Cymunedau Saint-y-brid, Y Wig ac Ewenni. Er mwyn sicrhau bod ffiniau'r etholaethau yn gyson â ffiniau llywodraeth leol yn yr ardal hon, cynigiwyd cynnwys adran etholiadol Saint-y-brid ac adran etholiadol gyfan Llandŵ/Ewenni yn etholaeth Vale of Glamorgan.

139. O ganlyniad i Orchymyn (Ardaloedd) Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg 1996, mae adran etholiadol Llangrallo Isaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi'i rhannu rhwng etholaethau Bridgend a Vale of Glamorgan. Gan fod y rhan honno o adran etholiadol Llangrallo Isaf yn etholaeth Vale of Glamorgan yn eithaf bach a heb unrhyw etholwyr, cynigiwyd cynnwys adran etholiadol gyfan Llangrallo Isaf yn etholaeth Bridgend.

140. O ganlyniad i Orchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Trefniadau Etholiadol) 1998, caiff adran etholiadol Creigiau/Sain Ffagan yng Nghaerdydd ei rhannu rhwng etholaethau Cardiff West a Pontypridd. Yn ogystal, o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, caiff adran etholiadol Pentyrch yn etholaeth bresennol Pontypridd ei chynnwys yn sir gadwedig De Morgannwg. Er mwyn sicrhau nad yw adrannau etholiadol yn cael eu rhannu rhwng etholaethau, cynigiwyd cynnwys adran etholiadol Pentyrch ac adran etholiadol gyfan Creigiau/Sain Ffagan yn etholaeth Cardiff West yn Ne Morgannwg.

VI. SOUTH GLAMORGAN

135. The preserved county of South Glamorgan, as constituted at the time of the last general review, had five constituencies with an electorate, at the enumeration date, of 317,369. The electorates of the five existing seats range from 59,626 in the Cardiff West constituency to 68,698 in the Vale of Glamorgan constituency. As a result of changes brought about by the Local Government (Wales) Act 1994 and The Bridgend and The Vale of Glamorgan (Areas) Order 1996, the area of the present preserved county of South Glamorgan had an electorate, at the enumeration date, of 325,150. The total number of electors, when divided by the electoral quota (55,640), gives a theoretical entitlement to 5.84 seats.

Provisional Recommendations

136. We decided to recommend that the boundaries of Cardiff Central and Cardiff North constituencies remain unchanged and that boundary changes be made to Cardiff West, Cardiff South and Penarth, and the Vale of Glamorgan constituencies. The provisionally recommended changes are described below.
137. We proposed the retention of the existing five constituencies, subject to the detailed changes described below, notwithstanding that the theoretical entitlement of 5.84 seats for the preserved county would have permitted an allocation of six rather than five seats. We gave detailed consideration to possible ways of producing a six-seat solution for the preserved county, but we concluded that none would be satisfactory, not least because of the inconveniences and disruption of local ties to which a radical recasting of the South Glamorgan constituencies would give rise. We decided that the electorates of the five constituencies proposed, although higher than the electoral quota, would each be of an acceptable size and would not give rise to unacceptable disparities as between neighbouring constituencies.
138. As a result of changes to the local authority and preserved county boundaries brought about by the Local Government (Wales) Act 1994, the existing Bridgend constituency crosses the boundary between the preserved counties of Mid Glamorgan and South Glamorgan in the area of the Communities of St. Bride's Major, Wick and Ewenny. So as to ensure that the boundaries of the constituencies are consistent with the local government boundaries in this area, we proposed that the electoral division of St. Bride's Major and the whole of the electoral division of Llandow/Ewenny be included within the Vale of Glamorgan constituency.
139. As a result of the Bridgend and The Vale of Glamorgan (Areas) Order 1996, the Coychurch Lower electoral division of Bridgend is split between the Bridgend and Vale of Glamorgan constituencies. As that part of the Coychurch Lower electoral division which falls within the Vale of Glamorgan constituency is relatively small and has no electors, we proposed to include the whole of the Coychurch Lower electoral division within the Bridgend constituency.
140. As a result of the City and County of Cardiff (Electoral Arrangements) Order 1998, the Creigiau/St. Fagans electoral division of Cardiff is split between the Cardiff West and Pontypridd constituencies. In addition, as a result of the Local Government (Wales) Act 1994, the Pentyrch electoral division in the existing Pontypridd constituency is included within the preserved county of South Glamorgan. So as to ensure that electoral divisions are not split between constituencies, we proposed that the Pentyrch electoral division and the whole of the Creigiau/St. Fagans electoral division are both included in the Cardiff West constituency in South Glamorgan.

141. Arweiniodd Gorchymyn Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg (Llanhari, Pont-y-clun, Pen-llin, Llanddunwyd a Phendeulwyn) 2002 at rannu adrannau etholiadol Y Bont-faen rhwng etholaethau Ogmored a Vale of Glamorgan (newid bach yn cynnwys dau eiddo). O ganlyniad i Orchymyn Siroedd Cadwedig 2003, mae hyn hefyd yn golygu rhaniad ar draws y ffin rhwng siroedd cadwedig Morgannwg Ganol a De Morgannwg. Er mwyn sicrhau na chaiff adrannau etholiadol eu rhannu rhwng etholaethau, cynigiwyd cynnwys adran etholiadol gyfan Cowbridge yn etholaeth Vale of Glamorgan yn sir gadwedig De Morgannwg.
142. Arweiniodd Gorchymyn Caerdydd a Bro Morgannwg (Llanfihangel a Grangetown) 2002 at rannu adran etholiadol Grangetown rhwng etholaethau Cardiff South and Penarth a Vale of Glamorgan (does neb yn byw yn yr ardal fechan o'r adran etholiadol hon sydd yn etholaeth Vale of Glamorgan). Cynigiwyd cynnwys adran etholiadol gyfan Grangetown yn etholaeth Cardiff South and Penarth.
143. Ar ôl y newidiadau a gynigiwyd uchod, dyma a fyddai nifer yr etholwyr yn y pum etholaeth: Cardiff Central (60,864), Cardiff North (63,615), Cardiff South and Penarth (64,566), Cardiff West (64,587) a Vale of Glamorgan (71,518).
144. Er mwyn rhoi sylw i broblem anghydbwysedd rhwng nifer yr etholwyr yn etholaeth Vale of Glamorgan a chyfartaledd y sir (a chwota etholiadol) cynigiwyd cynnwys adran etholiadol Sili yn ogystal yn etholaeth Cardiff South and Penarth yn hytrach nac etholaeth Vale of Glamorgan. Ystyriwyd gennym y byddai'r newid hwn yn dod â gwell cydbwysedd rhwng nifer pleidleiswyr etholaethau heb gael effaith wael sylweddol ar gysylltiadau lleol.
145. Penderfynwyd dros dro felly dyrannu pum sedd i Dde Morgannwg. Dyma'r enwau, y dynodiadau a nifer yr etholwyr ar ddyddiad y rhifiad ar gyfer y pum sedd a argymhellwyd dros dro:

Cardiff Central BC	60,864
Cardiff North BC	63,615
Cardiff South and Penarth BC	67,855
Cardiff West BC	64,587
Vale of Glamorgan CC	68,229

Ymchwiliad Lleol

146. Ar ôl cyhoeddi ein hargymhellion dros dro, derbyniwyd 20 o gynrychiolaethau ysgrifenedig, yr oedd 10 ohonynt yn cymeradwyo ein hargymhellion a 2 ohonynt yn eu cymeradwyo'n rhannol. I'r graddau yr oedd y cynrychiolaethau'n gwrthwynebu, cânt eu hystyried isod. Roedd angen ymchwiliad lleol oherwydd y cynrychiolaethau a gafwyd. Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn ar 24 Mehefin 2004 ym Mhenarth.

141. The Rhondda Cynon Taff and Vale of Glamorgan (Llanharry, Pont-y-clun, Penllyn, Welsh St. Donats and Pendoylan) Order 2002 resulted in the Cowbridge electoral division being split between the Ogmore and Vale of Glamorgan constituencies (a minor change involving two properties). As a result of the Preserved Counties Order 2003 this also entails a split across the boundary between the preserved counties of Mid Glamorgan and South Glamorgan. So as to ensure that electoral divisions are not split between constituencies, we proposed that the whole of the Cowbridge electoral division is included in the Vale of Glamorgan constituency in the preserved county of South Glamorgan.
142. The Cardiff and Vale of Glamorgan (Michaelston and Grangetown) Order 2002 resulted in the Grangetown electoral division being split between the Cardiff South and Penarth and the Vale of Glamorgan constituencies (the small area of this electoral division which lies within the Vale of Glamorgan constituency is uninhabited). We proposed that the whole of the Grangetown electoral division be included within the Cardiff South and Penarth constituency.
143. Following the changes proposed above the number of electors within the five constituencies would be as follows: Cardiff Central (60,864), Cardiff North (63,615), Cardiff South and Penarth (64,566), Cardiff West (64,587) and Vale of Glamorgan (71,518).
144. In order to address the problem of the disparity between the number of electors in the Vale of Glamorgan constituency and the county average (and electoral quota) we proposed in addition that the Sully electoral division be included within the Cardiff South and Penarth constituency rather than the Vale of Glamorgan constituency. We considered that this change would achieve a better parity between the constituency electorates without having a significantly detrimental effect on local ties.
145. Accordingly we provisionally decided to allocate five seats to South Glamorgan. The names, designations and enumeration date electorates for the five provisionally recommended seats are:

Cardiff Central BC	60,864
Cardiff North BC	63,615
Cardiff South and Penarth BC	67,855
Cardiff West BC	64,587
Vale of Glamorgan CC	68,229

Local Inquiry

146. Following publication of our provisional recommendations we received 20 written representations, of which 10 approved and 2 partly approved our recommendations. To the extent that the representations raised objections, they are considered below. The representations we received necessitated a local inquiry. This was held on 24th June 2004 in Penarth.

147. Adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol i ni nad oedd unrhyw gynrychiolaethau i'r gwrthwyneb a chefnogaeth gref ar gyfer y cynnig i gadw 5 etholaeth Seneddol yn sir gadwedig De Morgannwg. Adroddodd i ni mai dyma'r prif faterion a ystyriwyd yn yr ymchwiliad:
- (a) trosglwyddo adran etholiadol Pentyrch a rhan o adran etholiadol Creigiau/Sain Ffagan o etholaeth Pontypridd i etholaeth Cardiff West;
 - (b) trosglwyddo adran etholiadol Saint-y-brid a rhan o adran etholiadol Llandŵ ac Ewenni o etholaeth Bridgend i etholaeth Vale of Glamorgan; a
 - (c) throsglwyddo adran etholiadol Sili o etholaeth Vale of Glamorgan i etholaeth Cardiff South and Penarth.
148. O ran trosglwyddiad arfaethedig ardal etholiadol Pentyrch a rhan o adran etholiadol Creigiau/Sain Ffagan o etholaeth Pontypridd i etholaeth Cardiff West, adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol na dderbyniwyd unrhyw gynrychiolaethau gan breswylwyr lleol yn gwrthwynebu'r cynigion ac nad oedd wedi derbyn unrhyw dystiolaeth y byddai'r trosglwyddiad yn peri anhawster neu y byddai'n amhriodol. Ystyriodd fod cynigion y Comisiwn yn osgoi rhannu adran etholiadol Creigiau/Sain Ffagan rhwng etholaethau a'i bod yn ymddangos bod yr ardal dan sylw yn ffitio'n ddigon da i Cardiff West yn ymarferol. Argymhellodd derbyn cynigion dros dro'r Comisiwn ar gyfer yr ardal hon.
149. Adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol ei fod wedi ystyried y dystiolaeth a wnaed mewn gwrthwynebiad i gynigion y Comisiwn ar gyfer trosglwyddo adran etholiadol Saint-y-brid a rhan o adran etholiadol Llandŵ/Ewenni o etholaeth Bridgend i etholaeth Vale of Glamorgan ac nad oedd, yn ôl y dystiolaeth, yn ystyried y byddai cysylltiadau lleol yn cael eu torri'n sylweddol. Ystyriodd fod cynigion y Comisiwn yn osgoi rhannu adran etholiadol Llandŵ/Ewenni rhwng etholaethau a bod iddynt hefyd y fantais o roi mwyafrif ei hetholwyr yn yr un etholaeth ag yr oeddent o'r blaen, sef etholaeth Vale of Glamorgan. Tybiodd fod yr ardaloedd dan sylw yn debyg o ran cymeriad i Fro Morgannwg gyfan a'i bod yn ymddangos y byddent yn ffitio'n ddigon da yn ymarferol. Argymhellodd derbyn cynigion dros dro'r Comisiwn ar gyfer yr ardal hon.
150. Ystyriwyd safle Sili gan gadw mewn cof trosglwyddiad arfaethedig adran etholiadol Saint-y-brid a rhan o adran etholiadol Llandŵ/Ewenni i Vale of Glamorgan, sy'n gynigion y mae'r Comisiynydd Cynorthwyol wedi'u disgrifio yn anorchfygol.
151. Nododd y Comisiynydd Cynorthwyol mai'r mater a ddenodd y mwyaf o gynrychiolaethau o bell ffordd oedd a ddylid trosglwyddo Sili i Cardiff South and Penarth. Nododd y byddai'r trosglwyddiad arfaethedig yn cyflawni cydraddoldeb etholiadol llawer gwell a darganfyddodd fod y ddadl o blaid cydbwysedd etholiadol mwy yn ddadl bwerus iawn.
152. Derbyniodd y Comisiynydd Cynorthwyol gynrychiolaethau i'r perwyl y byddai Sili ar un ochr o'r etholaeth heb unrhyw beth yn gyffredin ag adrannau etholiadol ar yr ochr arall. Fodd bynnag, nododd nad oedd preswylwyr Sili yn anghyfforddus ynghylch eu cysylltiad â Phenarth.

147. The Assistant Commissioner reported to us that there were no contrary representations and strong support for the proposal to retain 5 Parliamentary constituencies in the preserved county of South Glamorgan. He reported to us that the main issues considered at the inquiry were:
- (a) the transfer from the Pontypridd constituency to the Cardiff West constituency of the electoral division of Pentyrch and part of the electoral division of Creigiau/St. Fagans;
 - (b) the transfer from the Bridgend constituency to the Vale of Glamorgan constituency of the electoral division of St. Bride's Major and part of the electoral division of Llandow/Ewenny; and
 - (c) the transfer from the Vale of Glamorgan constituency to the Cardiff South and Penarth constituency of the electoral division of Sully.
148. In respect of the proposed transfer of the electoral division of Pentyrch and part of the electoral division of Creigiau/St. Fagans from the Pontypridd constituency to the Cardiff West constituency, the Assistant Commissioner reported that no representations objecting to the proposals had been received from local residents and that he had received no evidence that the transfer would cause difficulty or was in itself inappropriate. He considered that the Commission's proposals avoided splitting the electoral division of Creigiau/St. Fagans between constituencies and that the area in question appeared to fit well enough into Cardiff West on the ground. He recommended that the Commission's provisional proposals be accepted for this area.
149. The Assistant Commissioner reported that he had considered the evidence made in objection to the Commission's proposals for the transfer of the electoral division of St. Bride's Major and part of the electoral division of Llandow/Ewenny from the Bridgend constituency to the Vale of Glamorgan constituency and that on the evidence he did not consider that any breaking of local ties would be substantial. He considered that the Commission's proposals avoided splitting the electoral division of Llandow/Ewenny between constituencies and also had the advantage of placing the majority of its electors in the same constituency as they were before, namely the Vale of Glamorgan constituency. He considered that the areas in question were similar in character to the Vale of Glamorgan as a whole and appeared to fit well enough on the ground. He recommended that the Commission's provisional proposals be accepted for this area.
150. Consideration of the position of Sully took place against the background of the proposed transfer to the Vale of Glamorgan of the electoral division of St. Bride's Major and of part of the electoral division of Llandow/Ewenny, proposals which the Assistant Commissioner described as irresistible.
151. The Assistant Commissioner noted that the issue whether Sully should be transferred to Cardiff South and Penarth drew by far the most representations. He noted that the proposed transfer would achieve much greater electoral equality and he found that the argument in favour of greater electoral parity was a powerful one.
152. The Assistant Commissioner received representations to the effect that Sully at one end of the constituency would have nothing in common with electoral divisions at the other end. However, he noted that Sully residents were not uncomfortable in their association with Penarth.

153. Nododd y Comisiynydd Cynorthwyol hefyd, er bod Sili ei hun yn bentref arfordirol, gwledig, bod pen gorllewinol y pentref yn ymuno'n syth ag ardal adeiledig y Barri i raddau helaeth (ym Mro Morgannwg), a dywedwyd wrtho fod preswylwyr Sili yn uniaethu â Bro Morgannwg a'r Barri fel sedd yr awdurdod lleol ac ar gyfer gwasanaethau lleol. Derbyniodd y Comisiynydd Cynorthwyol fod hyn yn dystiolaeth o gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri petai Sili'n cael ei drosglwyddo i Cardiff South and Penarth. Derbyniodd llai o dystiolaeth o gysylltiadau cymunedol o blaid trosglwyddo. Roedd y Comisiynydd Cynorthwyol yn fodlon y cafwyd gwrthwynebiad sylweddol ar ran preswylwyr Sili i gael eu cynnwys yn etholaeth Seneddol Cardiff South and Penarth, er bod rhywfaint o'r gwrthwynebiad hwn yn seiliedig ar gamddeall y canlyniadau ymarferol.
154. Derbyniodd y Comisiynydd Cynorthwyol dystiolaeth hefyd am y patrymau twf disgwylidig yn y ddwy etholaeth a oedd yn awgrymu iddo y bu mwy o dwf ym mhoblogaeth Cardiff South and Penarth nag ym mhoblogaeth Vale of Glamorgan ac y byddai hyn yn parhau.
155. Ystyriodd y Comisiynydd Cynorthwyol, petai cynigion eraill (Saint-y-brid, Llandŵ/Ewenni) yn cael eu gweithredu a phe na fyddai Sili'n cael ei drosglwyddo i Cardiff South and Penarth, byddai nifer etholwyr Vale of Glamorgan yn 71,518. Byddai hyn bron 10% uwchlaw cyfartaledd y sir, a oedd yn sicr ar y terfyn neu'n agos ato.
156. Gan grynhoi, tybiodd y Comisiynydd Cynorthwyol fod y dadleuon o blaid ac yn erbyn trosglwyddo Sili i Cardiff South and Penarth yn eithaf cytbwys. Darganfyddodd fod achos da i bryderu am faint absoliwt a pherthynol etholaeth Vale of Glamorgan pe byddai Sili'n aros yn yr etholaeth honno. Ni chafodd ei berswadio y byddai trosglwyddiad i Cardiff South and Penarth yn cael effaith wael iawn ar gysylltiadau lleol Sili, ond byddai'n torri cysylltiadau lleol hir sefydlog. Casglodd (1) lle'r oedd cysylltiadau lleol hir sefydlog a fyddai'n cael eu torri gan y trosglwyddiad, (2) fod maint etholaeth Vale of Glamorgan yn ymddangos yn sefydlog a (3) ymddangosai fod twf egniol yn etholaeth Cardiff South and Penarth, nid oedd nifer etholwyr o 71,518 ar gyfer Vale of Glamorgan mor ormodol fel bod angen trosglwyddiad. Ni argymhellodd felly trosglwyddo Sili i Cardiff South and Penarth, a chadarnhaodd ei gasgliadau mewn perthynas â Saint-y-brid a Llandŵ/Ewenni.

Argymhellion Terfynol

157. Ystyriwyd yn ofalus resymeg y Comisiynydd Cynorthwyol fel a grynhwyd uchod a nodwyd y darganfyddodd fod y dadleuon o blaid trosglwyddo Saint-y-brid a Llandŵ/Ewenni i Vale of Glamorgan yn anorchfygol, tra gwelodd fod y dadleuon o blaid ac yn erbyn trosglwyddo Sili i Cardiff South and Penarth yn eithaf cytbwys. Cytunwyd â'r Comisiynydd Cynorthwyol fod y ddadl o blaid cyflawni gwell cydbwysedd etholiadol trwy drosglwyddo Sili yn ddadl bwerus. Rhoddwyd pwysigrwydd sylweddol gennym i gymhwyso Rheol 5 ac, yn absenoldeb ffactor, neu gyfres o ffactorau, gwrthbwysol digon cryf, ystyriwyd y dylai Rheol 5 drechu fel arfer. Ystyriwyd gennym yr holl dystiolaeth a ystyriwyd gan y Comisiynydd Cynorthwyol yn ofalus iawn, gan gynnwys y dystiolaeth ynghylch cysylltiadau lleol a gwahaniaethau yng nghyfraddau twf yr etholaethau, ac roeddem o'r farn gadarn nad oedd yn ddigon cryf i orbwysu cymhwyso Rheol 5. Penderfynwyd felly cadarnhau ein cynnig i drosglwyddo Sili i etholaeth Seneddol Cardiff South and Penarth.

153. The Assistant Commissioner also noted that although Sully itself was a coastal, rural village, at its western end the village virtually ran into the built up area of Barry (in the Vale of Glamorgan), and he was told that Sully residents identified with the Vale of Glamorgan and with Barry as the seat of the local authority and for local services. The Assistant Commissioner accepted that this was evidence of local ties which would be broken if Sully were transferred to Cardiff South and Penarth. He received little evidence of community ties in favour of transfer. The Assistant Commissioner was satisfied that there was substantial opposition on the part of Sully residents to inclusion in the Parliamentary constituency of Cardiff South and Penarth, though some of this opposition was based upon a misunderstanding of the practical consequences.
154. The Assistant Commissioner also received evidence as to the predicted growth patterns in the two constituencies which suggested to him that there had been and would continue to be more growth in population in Cardiff South and Penarth than there would be in the Vale of Glamorgan.
155. The Assistant Commissioner took it into account that, if the other proposals (St. Bride's Major, Llandow/Ewenny) were implemented and Sully were not transferred to Cardiff South and Penarth, the electorate of the Vale of Glamorgan would be 71,518. This would be nearly 10% above the county average, which was indeed at or near the limit.
156. Summing up, the Assistant Commissioner found the arguments in favour of and against the transfer of Sully to Cardiff South and Penarth finely balanced. He found that there was good reason for concern about the absolute and relative size of the Vale of Glamorgan constituency if Sully were retained in that constituency. He was not persuaded that a transfer to Cardiff South and Penarth would do great violence to the local ties of Sully. But it would break local ties of long standing. He concluded that (1) where there were local ties of long standing which would be broken by the transfer, (2) the size of the Vale of Glamorgan electorate appeared static and (3) there appeared to be vigorous growth in the electorate of Cardiff South and Penarth, an electorate of 71,518 for the Vale of Glamorgan was not so excessive as to require transfer. He therefore did not recommend transfer of Sully to Cardiff South and Penarth, and confirmed his conclusions in relation to St. Bride's Major and Llandow/Ewenny.

Final Recommendations

157. We took carefully into account the Assistant Commissioner's reasoning as summarised above and noted that he found the arguments in favour of the transfer to the Vale of Glamorgan of St. Bride's Major and Llandow/Ewenny irresistible, whilst he found the arguments in favour of and against the transfer of Sully to Cardiff South and Penarth finely balanced. We agreed with the Assistant Commissioner that the argument in favour of achieving greater electoral parity by the transfer of Sully was a powerful one. We attached considerable weight to the application of Rule 5 and in the absence of a sufficiently strong countervailing factor, or set of factors, we considered that that Rule 5 should normally prevail. We considered all the evidence taken into account by the Assistant Commissioner, including the evidence as to local ties and differences in the rate of growth of the electorates, with great care, and we were of the firm view that it was not sufficiently strong to outweigh the application of Rule 5. We therefore decided to confirm our proposal that Sully be transferred to the Parliamentary constituency of Cardiff South and Penarth.

158. Ar ôl ystyried adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol a'r holl gynrychiolaethau a gafwyd, penderfynwyd felly:
- (a) derbyn argymhellion y Comisiynydd Cynorthwyol mewn perthynas ag (1) adran etholiadol Pentyrch a rhan o adran etholiadol Creigiau/Sain Ffagan, a (2) adran etholiadol Saint-y-brid a rhan o adran etholiadol Llandŵ/Ewenni;
 - (b) peidio â derbyn argymhelliad y Comisiynydd Cynorthwyol yn gysylltiedig ag adran etholiadol Sili ond cadarnhau'r argymhelliad dros dro i gynnwys adran etholiadol Sili yn etholaeth Cardiff South and Penarth yn hytrach nag etholaeth Vale of Glamorgan.
159. **Argymhellwn** fabwysiadu ein cynigion ar gyfer sir gadwedig De Morgannwg fel a fanylir isod.

158. Following consideration of the Assistant Commissioner's report and all of the representations received, we therefore decided:
- (a) to accept the Assistant Commissioner's recommendations in relation to (1) the electoral division of Pentyrch and part of the electoral division of Creigiau/St. Fagans, and (2) the electoral division of St. Bride's Major and part of the electoral division of Llandow/Ewenny;
 - (b) not to accept the Assistant Commissioner's recommendation relating to the electoral division of Sully but to confirm the provisional recommendation that the electoral division of Sully be included within the Cardiff South and Penarth constituency rather than the Vale of Glamorgan constituency.
159. ***We recommend*** adoption of our proposals for the preserved county of South Glamorgan as detailed below.

DE MORGANNWG: ETHOLAETHAU A ARGYMHELLIR

Gyda nifer yr etholwyr ar ddyddiad y rhifiad (16 Rhagfyr 2002).

Enw'r sedd, Dynodiad a Chyfansoddiad	Etholwyr
<p>Cardiff Central BC Adrannau etholiadol Sirol Caerdydd: Adamsdown, Cathays, Cyncoed, Pentwyn, Penylan, Plasnewydd.</p>	60,864
<p>Cardiff North BC Adrannau etholiadol Sirol Caerdydd: Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Llysfaen, Ystum Llandaf, Llanishen, Pontprennau/Yr Hen Laneirwg, Rhiwbeina, Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais.</p>	63,615
<p>Cardiff South And Penarth BC Adrannau etholiadol Sirol Caerdydd: Butetown, Grangetown, Llanrhymni, Tredelerch, Y Sblot, Trowbridge. Adrannau etholiadol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg: Cornerswell, Llandough, Plymouth, St. Augustine's, Stanwell, Sili.</p>	67,855
<p>Cardiff West BC Adrannau etholiadol Sirol Caerdydd: Caerau, Treganna, Creigiau/Sain Ffagan, Trelái, Y Tyllgoed, Llandaf, Pentyrch, Radyr, Riverside.</p>	64,587
<p>Vale Of Glamorgan CC Adrannau etholiadol Bwrdeistref Sirol Caerdydd: Baruc, Buttrills, Cadoc, Castleland, Court, Y Bont-faen, Dinas Powys, Dyfan, Gibbonsdown, Illtyd, Llandŵ/Ewenni, Llanilltud Fawr, Llanbedr-y-fro, Y Rhws, Sain Tathan, Saint-y-brid, Gwenfô.</p>	68,229

Yr adrannau etholiadol y cyfeirir atynt yw'r adrannau etholiadol newydd fel a sefydlwyd gan y Gorchmynion canlynol:

- Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Trefniadau Etholiadol) 1998 (fel a ddiwygiwyd gan Orchymyn Caerdydd (Ystum Taf, yr Eglwys Newydd, Llanisien, Llys-faen, Trelái a Sain Ffagan) 2003)
- Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Newidiadau Etholiadol) 2002 (fel a ddiwygiwyd gan Orchymyn Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg (Llanhari, Pont-y-clun, Pen-llin, Llanddunwyd a Phendeulwyn) 2002)

a'r ddau fel a ddiwygiwyd gan:

- Orchymyn Caerdydd a Bro Morgannwg (Llanfihangel a Grangetown) 2002.

Mae rhifau'r adrannau etholiadol ar y map sy'n dilyn yn cyfateb â'r rhifau ar y rhestr o adrannau etholiadol ym mhob awdurdod unedol yn Atodiad K.

SOUTH GLAMORGAN: RECOMMENDED CONSTITUENCIES

With electorates at the enumeration date (16 December 2002).

Seat name, Designation and Composition	Electorate
<p>Cardiff Central BC Cardiff County electoral divisions: Adamsdown, Cathays, Cyncoed, Pentwyn, Penylan, Plasnewydd.</p>	60,864
<p>Cardiff North BC Cardiff County electoral divisions: Gabalfa, Heath, Lisvane, Llandaff North, Llanishen, Pontprennau/Old St.Mellons, Rhiwbina, Whitchurch and Tongwynlais.</p>	63,615
<p>Cardiff South And Penarth BC Cardiff County electoral divisions: Butetown, Grangetown, Llanrumney, Rumney, Splott, Trowbridge. The Vale of Glamorgan County Borough electoral divisions: Cornerswell, Llandough, Plymouth, St. Augustine's, Stanwell, Sully.</p>	67,855
<p>Cardiff West BC Cardiff County electoral divisions: Caerau, Canton, Creigiau/St.Fagans, Ely, Fairwater, Llandaff, Pentyrch, Radyr, Riverside.</p>	64,587
<p>Vale of Glamorgan CC The Vale of Glamorgan County Borough electoral divisions: Baruc, Buttrills, Cadoc, Castleland, Court, Cowbridge, Dinas Powys, Dyfan, Gibbonsdown, Illtyd, Llandow/Ewenny, Llantwit Major, Peterston-super-Ely, Rhoose, St.Athan, St.Bride's Major, Wenvoe.</p>	68,229


The electoral divisions referred to are the new electoral divisions as constituted by the following Orders:

- The City and County of Cardiff (Electoral Arrangements) Order 1998 (as amended by the Cardiff (Llandaf North, Whitchurch, Llanishen, Lisvane, Ely and St. Fagans) Order 2003)
- The County Borough of The Vale of Glamorgan (Electoral Changes) Order 2002 (as amended by The Rhondda Cynon Taff and Vale of Glamorgan (Llanharry, Pont-y-clun, Penllyn, Welsh St. Donats and Pendoylan) Order 2002)

both as amended by:

- The Cardiff and Vale of Glamorgan (Michaelston and Grangetown) Order 2002.

The electoral division numbers on the map that follows correspond with the numbered list of electoral divisions within each unitary authority that can be found in Appendix K.



Final Recommendations for South Glamorgan

KEY


Boundaries:

-  Electoral Division
-  Lincsey Authority
-  Proposed Constituency

- Seat Name & Designation**
- 1 CARDIFF CENTRAL BC
 - 2 CARDIFF NORTH BC
 - 3 CARDIFF SOUTH AND PENARTH BC
 - 4 CARDIFF WEST BC
 - 5 VALLE OF GLAMORGAN DC

- A - Cardiff**
- B - The Vale of Glamorgan**

This map is based on the Ordnance Survey Map with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office.
 Jd Crown Copyright.



VII. GORLLEWIN MORGANNWG

160. Mae gan sir gadwedig Gorllewin Morgannwg bum etholaeth gyda 283,501 o etholwyr ar ddyddiad y rhifiad. Mae nifer etholwyr y pum sedd bresennol yn amrywio o 50,422 yn etholaeth Aberavon i 60,524 yn etholaeth Gower. Mae cyfanswm nifer yr etholwyr, wrth ei rannu gan y cwota etholiadol (55,640), yn rhoi hawl damcaniaethol i 5.1 sedd.

Argymhellion Dros Dro

161. Gwnaeth ein hargymhellion dros dro newid bach i ffiniau etholaethau Gower a Neath ac ni newidiwyd y tair etholaeth arall.

162. O ganlyniad i Orchymyn Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe (Trebannws a Chlydach) 2002, cafwyd newid bach i adrannau etholiadol Clydach (Abertawe) a Threbannws (Castell-nedd Port Talbot) gan arwain at gynnydd o 11 etholwr yn adran etholiadol Clydach a gostyngiad cyfatebol yn adran etholiadol Trebannws. O ganlyniad i'r newid hwn, mae adran etholiadol Clydach bellach wedi'i rhannu rhwng etholaethau Gower a Neath. Gan fod mwyafrif helaeth adran etholiadol Clydach yn etholaeth bresennol Gower, penderfynwyd argymell aildrefnu'r ffin rhwng etholaethau Gower a Neath er mwyn cynnwys adran etholiadol gyfan Clydach yn etholaeth Gower.

163. Penderfynwyd peidio ag argymell newidiadau i unrhyw un o'r etholaethau presennol eraill, oherwydd na allem weld cyfiawnhad digonol i orbwysu'r anghyfleusterau a'r amhariad canlyniadol i gysylltiadau lleol.

164. Penderfynwyd dros dro felly i ddyrannu pum sedd i Orllewin Morgannwg. Dyma'r enwau, y dynodiadau a nifer yr etholwyr ar ddyddiad y rhifiad ar gyfer y pum sedd a argymhellwyd dros dro:

Aberavon CC	50,422
Gower CC	60,535
Neath CC	56,982
Swansea East BC	57,226
Swansea West BC	58,336

Ymchwiliad Lleol

165. Ar ôl cyhoeddi ein hargymhellion dros dro, derbyniwyd 23 cynrychiolaeth ysgrifenedig, yr oedd 13 ohonynt yn cymeradwyo ein hargymhellion. I'r graddau y cododd y cynrychiolaethau wrthwynebiadau, cânt eu hystyried isod. Wrth ystyried y cynrychiolaethau a gafwyd, roeddem o'r farn ei bod yn briodol cynnal ymchwiliad lleol, a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2004 yn Abertawe.

166. Adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol i ni y derbyniwyd un gwrthgynnig a chafodd ei drafod yn yr ymchwiliad, a dyma oedd y prif faterion a ystyriwyd:

- trosglwyddo adrannau etholiadol Blaen-gwrach, Glyn-nedd, Pelenna a Resolfen o etholaeth Neath i etholaeth Aberavon;
- trosglwyddo adrannau etholiadol Clydach a Mawr o etholaeth Gower i etholaeth Neath;
- trosglwyddo adran etholiadol Mayals o etholaeth Swansea West i etholaeth Gower.

VII. WEST GLAMORGAN

160. The preserved county of West Glamorgan has five constituencies with an electorate, at the enumeration date, of 283,501. The electorates of the five existing seats range from 50,422 in the Aberavon constituency to 60,524 in the Gower constituency. The total number of electors, when divided by the electoral quota (55,640), gives a theoretical entitlement to 5.1 seats.

Provisional Recommendations

161. Our provisional recommendations made a minor change to the boundaries of the Gower and Neath constituencies and left the other three constituencies unchanged.
162. As a result of the Neath Port Talbot and Swansea (Trebanos and Clydach) Order 2002 a minor change has been made to the Clydach (Swansea) and Trebanos (Neath Port Talbot) electoral divisions resulting in an increase of 11 electors in the Clydach electoral division and a corresponding decrease in the Trebanos electoral division. The result of this change is that the Clydach electoral division is now split between the Gower and Neath constituencies. Since all but a very small part of the Clydach electoral division is within the existing Gower constituency we decided to recommend a realignment of the boundary between the Gower and Neath constituencies so as to include the whole of the Clydach electoral division within the Gower constituency.
163. We decided not to recommend changes to any of the other existing constituencies, because we could see no justification sufficient to outweigh the resulting inconveniences and disruption of local ties.
164. Accordingly we provisionally decided to allocate five seats to West Glamorgan. The names, designations and enumeration date electorates for the five provisionally recommended seats are:

Aberavon CC	50,422
Gower CC	60,535
Neath CC	56,982
Swansea East BC	57,226
Swansea West BC	58,336

Local Inquiry

165. Following publication of our provisional recommendations we received 23 written representations, of which 13 approved our recommendations. To the extent that the representations raised objections, they are considered below. On consideration of the representations received we thought it appropriate to hold a local inquiry. This was held on 13th July 2004 in Swansea.
166. The Assistant Commissioner reported to us that one counter-proposal was received and discussed at the inquiry, and that the main issues considered were:
- the transfer of the Blaengwrach, Glynneath, Pelenna and Resolven electoral divisions from the Neath constituency to the Aberavon constituency;
 - the transfer of the Clydach and Mawr electoral divisions from the Gower constituency to the Neath constituency;
 - the transfer of the Mayals electoral division from the Swansea West constituency to the Gower constituency.

167. Adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol fod y gwrthgynnig yn cynnig trosglwyddo adrannau etholiadol Blaen-gwrach, Glyn-nedd, Pelenna a Resolfen o etholaeth Neath i etholaeth Aberavon. Nododd y byddai hyn yn lleihau'r anghydbwysedd etholiadol rhwng etholaeth Aberavon ac etholaethau eraill Gorllewin Morgannwg ond casglodd, pan ystyrir hyn yn erbyn yr anghyfleusterau a'r torri cysylltiadau lleol canlyniadol, nad oedd hyn yn cyfiawnhau newid ffin yr etholaethau rhwng Neath ac Aberavon.
168. Adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol bod y gwrthgynnig hefyd yn cynnig trosglwyddo adrannau etholiadol Clydach a Mawr o etholaeth Gower i etholaeth Neath. Ar ôl ystyried y dystiolaeth, casglodd y byddai'r anghyfleuster a'r torri cysylltiadau lleol a fyddai'n dod yn sgil y newid yn golygu na ddylid gwneud unrhyw newid.
169. Nododd y Comisiynydd Cynorthwyol fod yr achos a gyflwynwyd i drosglwyddo adran etholiadol Mayals o etholaeth Swansea West i etholaeth Gower yn eithaf gwahanol, oherwydd mantais y cynnig oedd y byddai'n uno Cyngor Cymunedol Mayals mewn un etholaeth. Derbyniodd y byddai'r gwrthgynnig o ran Mayals yn cryfhau ei gysylltiadau â'r Mwmbwls ac yn achosi i'r cyngor cymunedol gynrychioli ei ardal yn fwy cyfleus. Fodd bynnag, derbyniodd hefyd y byddai'r newid yn torri'r cysylltiadau â chynrychiolaeth Seneddol a'r Cynulliad sydd wedi bodoli bellach am 30 mlynedd neu fwy heb fawr o gymhlethdod, os o gwbl. Adroddodd ei fod o'r farn y byddai'r anghyfleusterau a'r torri cysylltiadau lleol a ddaw yn sgil newid o'r fath yn gymharol fach ac yn dwyn dadl yn erbyn y prif wrthgynnig.
170. O ran y gwrthgynnig, ystyriodd y Comisiynydd Cynorthwyol fod y gwelliant a ddaw o ran cydbwysedd yn cael ei wrthbwysu gan yr anghyfleuster a'r torri cysylltiadau lleol a ddaw. Argymhellodd felly na ddylid mabwysiadu'r gwrthgynnig.
171. Cynigiwyd dewisiadau pellach yn yr ymchwiliad a chawsant eu hystyried gan y Comisiynydd Cynorthwyol yn ei adroddiad. Ystyriodd mai'r cynnig amgen o drosglwyddo adrannau etholiadol Pelenna a Resolfen i etholaeth Aberavon, Mayals i etholaeth Gower a Chlydach i etholaeth Neath oedd fwyaf deniadol, yn yr ystyr ei fod yn lleihau'r anghydbwysedd etholiadol rhwng yr etholaethau gyda llai o anfantais, o ran anghyfleuster a thorri cysylltiadau lleol, na'r anfantais yn gysylltiedig â'r prif wrthgynnig. Serch hynny, daeth i'r farn y dylid gwrthod y cynnig hwn hefyd ar sail anghyfleusterau a thorri cysylltiadau lleol.

Argymhellion Terfynol

172. Ar ôl ystyried adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol a'r holl gynrychiolaethau a gafwyd, penderfynwyd derbyn holl argymhellion y Comisiynydd Cynorthwyol ynghylch sir gadwedig Morgannwg Ganol. Penderfynwyd felly cadarnhau ein hargymhellion dros dro i ddyrannu 5 sedd i Orllewin Morgannwg, heb unrhyw newid i etholaethau Aberavon, Swansea East a Swansea West a newid bach i'r ffin rhwng etholaethau Gower a Neath.
173. **Argymhellwn** fabwysiadu ein cynigion ar gyfer sir gadwedig Gorllewin Morgannwg fel a fanylir isod.

167. The Assistant Commissioner reported that the counter-proposal proposed the transfer of the Blaengwrach, Glynneath, Pelenna and Resolven electoral divisions from the Neath constituency to the Aberavon constituency. He noted that this would reduce the electoral disparity between the Aberavon constituency and the other West Glamorgan constituencies but concluded that, when weighed against the resultant inconveniences and breaking of local ties, this did not justify the alteration of the constituency boundary between Neath and Aberavon.
168. The Assistant Commissioner reported that the counter-proposal also proposed the transfer of the Clydach and Mawr electoral divisions from the Gower constituency to the Neath constituency. Having considered the evidence he concluded that the inconvenience and the break in local ties which would flow from the alteration were such that the alteration should not be made.
169. The Assistant Commissioner noted that the case put forward to transfer the Mayals electoral division from the Swansea West constituency to the Gower constituency was somewhat different, in that the advantage of the proposal was that it would unite Mayals Community Council in one constituency. He accepted that the counter-proposal in respect of Mayals would have the effect of strengthening its ties with Mumbles and of increasing the convenience with which the community council represents its area. However he accepted also that the alteration would break the ties with Parliamentary and Assembly representation which has now existed for 30 years or more and in respect of which there was currently little, if any, confusion. He reported that it was his view that the inconveniences and break in local ties which such an alteration would bring about was modest and weighed in the balance against the main counter-proposal.
170. In respect of the counter-proposal, the Assistant Commissioner considered that the resulting improvement in parity was offset by the resulting inconvenience and break in local ties. He therefore recommended that the counter-proposal should not be adopted.
171. Further alternatives were proposed at the inquiry and these were considered by the Assistant Commissioner in his report. He considered that the alternative proposal of transferring Pelenna and Resolven electoral divisions to the Aberavon constituency, Mayals to the Gower constituency and Clydach to the Neath constituency was the most attractive, in that it achieved a reduction in the electoral disparity between the constituencies with less disadvantage, in terms of inconvenience and break in local ties, than that associated with the main counter-proposal. Nevertheless he came to the view that this proposal should also be rejected on grounds of inconvenience and the breaking of local ties.

Final Recommendations

172. Following consideration of the Assistant Commissioner's report and all of the representations we received, we decided to accept all of the Assistant Commissioner's recommendations in respect of the preserved county of West Glamorgan. We therefore decided to confirm our provisional recommendations to allocate 5 seats to West Glamorgan, making no change to the Aberavon, Swansea East and Swansea West constituencies and a minor change to the boundary between the Gower and Neath constituencies.
173. ***We recommend*** adoption of our proposals for the preserved county of West Glamorgan as detailed below.

GORLLEWIN MORGANNWG: ETHOLAETHAU A ARGYMHELLIR

Gyda nifer yr etholwyr ar ddyddiad y rhifiad (16 Rhagfyr 2002).

Enw'r sedd, Dynodiad a Chyfansoddiad	Etholwyr
<p>Aberavon CC Adrannau etholiadol Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot: Aberafan, Baglan, Dwyrain Llansawel, Gorllewin Llansawel, Bryn a Chwmafan, Coed-ffranc Canol, Gogledd Coed-ffranc, Gorllewin Coed-ffranc, Y Cymer, Glynccorwg, Gwynfi, Margam, Port Talbot, Dwyrain Sandfields, Gorllewin Sandfields, Tai-bach.</p>	50,422
<p>Gower CC Adrannau etholiadol Sirol Abertawe: Llandeilo Ferwallt, Clydach, Fairwood, Gorseinon, Gŵyr, Tre-gŵyr, Pontybrenin, Llangyfelach, Lluchwr Isaf, Mawr, Newton, Ystumllwynarth, Penclawdd, Penllergaer, Pennard, Penyrheol, Pontarddulais, Lluchwr Uchaf, West Cross.</p>	60,535
<p>Neath CC Adrannau etholiadol Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot: Aberdulais, Yr Allt-wen, Blaen-gwrach, Gogledd Bryn-côch, De Bryn-côch, Llangatwg, Cimla, Y Creunant, Cwmllynfell, Dyffryn, Glyn-nedd, Godre'r-graig, Gwauncaegurwen, Brynamman Isaf, Dwyrain Castell-nedd, Gogledd Castell-nedd, De Castell-nedd, Onllwyn, Pelenna, Pontardawe, Resolfen, Rhos, Blaendulais, Tonna, Trebannws, Ystalyfera.</p>	56,982
<p>Swansea East BC Adrannau etholiadol Sirol Abertawe: Bon-y-maen, Cwmbwrla, Glandŵr, Llansamlet, Treforys, Mynyddbach, Penderi, St. Thomas.</p>	57,226
<p>Swansea West BC Adrannau etholiadol Sirol Abertawe: Y Castell, Cocyd, Dyfnant, Gogledd Cilâ, De Cilâ, Mayals, Sgeti, Townhill, Uplands.</p>	58,336

Yr adrannau etholiadol y cyfeirir atynt yw'r adrannau etholiadol newydd fel a sefydlwyd gan y Gorchmynion canlynol:

- Gorchymyn Trefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Castell-nedd a Phort Talbot 1994,
 - Gorchymyn Dinas a Sir Abertawe (Trefniadau Etholiadol) 1998
- a'r ddau fel a ddiwygiwyd gan
- Orchymyn Castell-nedd a Phort Talbot (Trebannws a Chlydach) 2002.

Mae rhifau'r adrannau etholiadol ar y map sy'n dilyn yn cyfateb â'r rhifau ar y rhestr o adrannau etholiadol ym mhob awdurdod unedol yn Atodiad K.

WEST GLAMORGAN: RECOMMENDED CONSTITUENCIES


With electorates at the enumeration date (16 December 2002).


Seat name, Designation and Composition	Electorate
<p>Aberavon CC Neath Port Talbot County Borough electoral divisions: Aberavon, Baglan, Briton Ferry East, Briton Ferry West, Bryn and Cwmavon, Coedffranc Central, Coedffranc North, Coedffranc West, Cymmer, Glyncorrwg, Gwynfi, Margam, Port Talbot, Sandfields East, Sandfields West, Tai-bach.</p>	50,422
<p>Gower CC Swansea County electoral divisions: Bishopston, Clydach, Fairwood, Gorseinon, Gower, Gowerton, Kingsbridge, Llangyfelach, Lower Loughor, Mawr, Newton, Oystermouth, Penclawdd, Penllergaer, Pennard, Penyrheol, Pontardulais, Upper Loughor, West Cross.</p>	60,535
<p>Neath CC Neath Port Talbot County Borough electoral divisions: Aberdulais, Allt-wen, Blaengwrach, Bryn-côch North, Bryn-côch South, Cadoxton, Cimla, Crynant, Cwmllynfell, Dyffryn, Glynneath, Godre'r graig, Gwaun-Cae-Gurwen, Lower Brynamman, Neath East, Neath North, Neath South, Onllwyn, Pelenna, Pontardawe, Resolven, Rhos, Seven Sisters, Tonna, Trebanos, Ystalyfera.</p>	56,982
<p>Swansea East BC Swansea County electoral divisions: Bonymaen, Cwmbwrla, Landore, Llansamlet, Morrision, Mynyddbach, Penderry, St.Thomas.</p>	57,226
<p>Swansea West BC Swansea County electoral divisions: Castle, Cockett, Dunvant, Killay North, Killay South, Mayals, Sketty, Townhill, Uplands.</p>	58,336

The electoral divisions referred to are the new electoral divisions as constituted by the following Orders:

- The County Borough of Neath and Port Talbot Electoral Arrangements Order 1994,
 - The City and County of Swansea (Electoral Arrangements) Order 1998
- both as amended by
- The Neath Port Talbot and Swansea (Trebanos and Clydach) Order 2002.

The electoral division numbers on the map that follows correspond with the numbered list of electoral divisions within each unitary authority that can be found in Appendix K.





E. ETHOLAETHAU SENEDDOL: CRYNODEB

174. Mae nifer arfaethedig yr etholaethau Seneddol (ac felly etholaethau'r Cynulliad) yn parhau yn 40. Rhoddwyd rhestr o etholaethau argymelledig ar gyfer pob sir gadwedig, gyda dynodiad, nifer yr etholwyr ar ddyddiad y rhifiad a chyfansoddiad o ran adrannau etholiadol, yn yr adran flaenorol. Ceir gwybodaeth ystadegol bellach yn Atodiadau F i K.
175. Mae gan yr etholaethau a argymhellir niferoedd etholwyr sy'n amrywio o 68,229 (Vale of Glamorgan CC) i 42,998 (Arfon CC). Mae hyn yn cymharu ag ystod o 68,698 i 33,723 ar gyfer etholaethau presennol. O'r etholaethau arfaethedig, mae gan 26 ohonynt nifer etholwyr sydd o fewn 10% o'r cwota etholiadol, mae 33 ohonynt yn syrthio o fewn 15% i'r cwota etholiadol tra bod 7 yn gwyro oddi wrth y cwota etholiadol fwy na 15%.
176. Cynigir newidiadau sylweddol i rannau o ardaloedd siroedd cadwedig Clwyd a Gwynedd, gyda chreu tair etholaeth newydd (Aberconwy, Arfon, a Dwyfor Meirionnydd) yn lle etholaethau presennol.
177. Cynigir newidiadau hefyd i'r etholaethau canlynol: Blaenau Gwent, Bridgend, Caerphilly, Cardiff South and Penarth, Carmarthen East and Dinefwr, Carmarthen West and South Pembrokeshire, Ceredigion, Clwyd South, Clwyd West, Cynon Valley, Gower, Islwyn, Merthyr Tydfil and Rhymney, Neath, Ogmore, Pontypridd, Preseli Pembrokeshire, Montgomeryshire, Vale of Clwyd, Vale of Glamorgan.
178. Ni chynigir unrhyw newidiadau i'r 17 etholaeth sy'n weddill.
179. Cyn cyflwyno ein hadroddiad terfynol, ailystyriwyd ein hargymhellion i sicrhau ein bod wedi defnyddio ymagwedd deg a chyson at bob sir gadwedig, yn enwedig mewn perthynas â'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi. Sicrhawyd cysondeb ein hymagwedd hefyd yn erbyn nifer o feini prawf eraill gan gynnwys parch at ffiniau siroedd cadwedig, cyd-daro â ffiniau awdurdodau unedol, rhannu adrannau etholiadol sirol rhwng seddi, dull enwi a dynodiad seddi, trafod cynrychiolaethau, archwilio argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, trafod Gorchmynion newid ffiniau llywodraeth leol, a thrafod argymhellion diwygiedig a'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd. Ym mhob ffordd, rydym yn fodlon y defnyddiwyd ymagwedd deg a chyson.

E. PARLIAMENTARY CONSTITUENCIES: SUMMARY

174. The proposed number of Parliamentary constituencies (and thus Assembly constituencies) remains at 40. A list of recommended constituencies for each preserved county, with designation, enumeration date electorates and composition in terms of electoral divisions, has been given in the previous section. Further statistical information is to be found in Appendices F to K.
175. The recommended constituencies have electorates which range from 68,229 (Vale of Glamorgan CC) to 42,998 (Arfon CC). This compares to a range of 68,698 to 33,723 for existing constituencies. Of the proposed constituencies 26 have electorates which are within 10% of the electoral quota, 33 fall within 15% of the electoral quota whilst 7 deviate from the electoral quota by more than 15%.
176. Significant changes to parts of the Clwyd and Gwynedd preserved county areas are proposed, with the creation of three new constituencies (Aberconwy, Arfon, and Dwyfor Meirionnydd) in place of existing constituencies.
177. Changes are also proposed to the following constituencies: Blaenau Gwent, Bridgend, Caerphilly, Cardiff South and Penarth, Carmarthen East and Dinefwr, Carmarthen West and South Pembrokeshire, Ceredigion, Clwyd South, Clwyd West, Cynon Valley, Gower, Islwyn, Merthyr Tydfil and Rhymney, Neath, Ogmore, Pontypridd, Preseli Pembrokeshire, Montgomeryshire, Vale of Clwyd, Vale of Glamorgan.
178. No changes are proposed to the remaining 17 constituencies.
179. Before submitting the final report we reappraised our recommendations to ensure that we had adopted a fair and consistent approach to each preserved county, in particular with regard to the Rules for the Redistribution of Seats. We also checked the consistency of approach against a number of other criteria including respect for preserved county boundaries, coincidence with unitary authority boundaries, division of county electoral divisions between seats, nomenclature and designation of seats, treatment of representations, examination of Assistant Commissioners' recommendations, treatment of local government boundary change Orders, and treatment of revised recommendations and representations received. In all respects we are satisfied that a fair and consistent approach has been adopted.

F. RHANBARTH AU ETHOLIADOL CYNULLIAD CYMRU: ARGYMHELLION

180. Fel a ddangosir ym mharagraff 23 uchod, etholaethau'r Cynulliad yw'r etholaethau Seneddol yng Nghymru. Mae etholwyr etholaethau'r Cynulliad ychydig yn wahanol i'r rheiny yn yr etholaethau Seneddol cyfatebol oherwydd caiff arglwyddi a dinasyddion yr UE eu cynnwys ond eithrir etholwyr tramor. Mae etholwyr etholaethau'r Cynulliad, os gweithredir ein hargymhellion ar gyfer yr etholaethau Seneddol, yn Atodiad L.
181. Esbonnir dyletswydd y Comisiwn i ystyried a oes angen unrhyw newid i ranbarthau etholiadol y Cynulliad a/neu ddyraniad seddi i ranbarthau etholiadol y Cynulliad ym mharagraffau 24 i 25 uchod.

Argymhellion Dros Dro

182. Gan mai cadw 40 etholaeth Seneddol yng Nghymru oedd ein hargymhellion dros dro, nid oedd unrhyw newid i nifer etholaethau'r Cynulliad. Mewn cydymffurfiaeth â Rheol 3 (Atodiad B), mae nifer seddi'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau'r Cynulliad yn parhau'n 20 (sef hanner cyfanswm nifer etholaethau'r Cynulliad).
183. Roedd etholaethau Conwy, Dwyfor Meirionnydd a Montgomeryshire a gynigiwyd dros dro yn croesi ffiniau rhanbarthau etholiadol presennol y Cynulliad. Gan fod Rheol 1 yn mynnu cynnwys pob etholaeth y Cynulliad yn gyfan mewn un rhanbarth etholiadol, cynigiwyd ailddiffinio rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru er mwyn cynnwys etholaethau arfaethedig Conwy ac Arfon yn rhanbarth Gogledd Cymru ac etholaethau arfaethedig Dwyfor Meirionnydd a Montgomeryshire yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru. Ystyriwyd mai dyma'r newidiadau mwyaf boddhaol i'w gwneud o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i etholaethau Seneddol.
184. Cynigiwyd hefyd newid y ffin rhwng rhanbarth etholiadol Gorllewin De Cymru a rhanbarth etholiadol Canol De Cymru i gyfateb â'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng etholaethau Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg.

F. WELSH ASSEMBLY ELECTORAL REGIONS: RECOMMENDATIONS

180. As indicated in paragraph 23 above the Assembly constituencies are the Parliamentary constituencies in Wales. The electorates of the Assembly constituencies differ in minor respects from those in the corresponding Parliamentary constituencies because peers and EU citizens are included but overseas electors are excluded. The electorates of the Assembly constituencies, if our recommendations for the Parliamentary constituencies are implemented, are found in Appendix L.
181. The Commission's duty to consider whether any alteration to the Assembly electoral regions and/or the allocation of seats to the Assembly electoral regions is required is explained in paragraphs 24 to 25 above.

Provisional Recommendations

182. As our provisional recommendations were to retain 40 Parliamentary constituencies in Wales there was no change to the number of Assembly constituencies. In compliance with Rule 3 (Appendix B), the number of Assembly seats for Assembly regions remains at 20 (one half of the total number of Assembly constituencies).
183. The provisionally proposed constituencies of Conwy, Dwyfor Meirionnydd and Montgomeryshire crossed the boundaries of existing Assembly electoral regions. As Rule 1 requires each Assembly constituency to be wholly included within one electoral region, we proposed redefining the North Wales and Mid and West Wales regions so as to include the proposed Conwy and Arfon constituencies within the North Wales region and the proposed Dwyfor Meirionnydd and Montgomeryshire constituencies within the Mid and West Wales region. We considered that these were the most satisfactory changes to make as a consequence of the proposed changes to Parliamentary constituencies.
184. We also proposed that the boundary between the South Wales West electoral region and the South Wales Central electoral region be adjusted to correspond to the proposed change to the boundary between the Bridgend and Vale of Glamorgan constituencies.

185. Dyma gyfansoddiad bum Rhanbarth y Cynulliad a argymhellwyd dros dro (gyda nifer etholwyr y Cynulliad ar ddyddiad y rhifiad mewn cromfachau):

Gogledd Cymru (459,718): Alyn and Deeside CC, Arfon CC, Clwyd South CC, Clwyd West CC, Conwy CC, Delyn CC, Vale of Clwyd CC, Wrexham CC, Ynys Môn CC.

Canolbarth a Gorllewin Cymru (426,058): Brecon and Radnorshire CC, Carmarthen East and Dinefwr CC, Carmarthen West and South Pembrokeshire CC, Ceredigion CC, Dwyfor Meirionnydd CC, Llanelli CC, Montgomeryshire CC, Preseli Pembrokeshire CC.

Gorllewin De Cymru (395,717): Aberavon CC, Bridgend CC, Gower CC, Neath CC, Ogmore CC, Swansea East BC, Swansea West BC.

Canol De Cymru (480,831): Cardiff Central BC, Cardiff North BC, Cardiff South and Penarth BC, Cardiff West BC, Cynon Valley CC, Pontypridd CC, Rhondda CC, Vale of Glamorgan CC.

Dwyrain De Cymru (470,878): Blaenau Gwent CC, Caerphilly CC, Islwyn CC, Merthyr Tydfil and Rhymney CC, Monmouth CC, Newport East CC, Newport West CC, Torfaen CC.

Ymchwiliad Lleol

186. Ar ôl cyhoeddi ein hargymhellion dros dro, derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r cynnig i gynnwys etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd yn Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru'r Cynulliad. Adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol a gynhaliodd ymchwiliad lleol Gwynedd a Chlwyd y codwyd y mater hwn hefyd mewn ymchwiliadau ym Mangor a Rhuthun. Roedd gwrthwynebwyr cynnig y Comisiwn yn awgrymu y dylid cynnwys yr etholaeth arfaethedig yn rhanbarth Gogledd Cymru. Fodd bynnag, ystyriodd y Comisiynydd Cynorthwyol fod cymuned o ddiddordeb rhwng yr etholaeth arfaethedig a rhannau eraill o ranbarth arfaethedig Canolbarth a Gorllewin Cymru'r Cynulliad a bod cynnig dros dro'r Comisiwn yn darparu gwell cydbwysedd rhwng etholaethau rhanbarthau'r Cynulliad. Felly, cefnogodd y Comisiynydd Cynorthwyol argymhellion dros dro'r Comisiwn o ran dyrannu etholaethau i ranbarth etholiadol Gogledd Cymru a rhanbarth etholiadol Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Argymhellion Terfynol

187. Ystyriwyd adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol a'r holl gynrychiolaethau a wnaed ynghylch ein hargymhellion dros dro ar gyfer rhanbarthau etholiadol Cynulliad Cymru. Nodwyd y pryderon a godwyd yn y gwrthwynebiadau ond roeddem o'r farn o hyd bod ein hargymhellion dros dro yn gwbl briodol i weithredu'r Rheolau ar gyfer Cyfansoddiad Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Atodiad B). Penderfynwyd felly cadarnhau'r argymhellion hynny.
188. *Argymhellwn* fabwysiadu ein cynigion ar gyfer rhanbarthau etholiadol Cynulliad Cymru fel a fanylir isod.

185. The composition of the five Assembly Regions provisionally recommended was as follows (with the enumeration date Assembly electorates shown in brackets):

North Wales (459,718): Alyn and Deeside CC, Arfon CC, Clwyd South CC, Clwyd West CC, Conwy CC, Delyn CC, Vale of Clwyd CC, Wrexham CC, Ynys Môn CC.

Mid and West Wales (426,058): Brecon and Radnorshire CC, Carmarthen East and Dinefwr CC, Carmarthen West and South Pembrokeshire CC, Ceredigion CC, Dwyfor Meirionnydd CC, Llanelli CC, Montgomeryshire CC, Preseli Pembrokeshire CC.

South Wales West (395,717): Aberavon CC, Bridgend CC, Gower CC, Neath CC, Ogmore CC, Swansea East BC, Swansea West BC.

South Wales Central (480,831): Cardiff Central BC, Cardiff North BC, Cardiff South and Penarth BC, Cardiff West BC, Cynon Valley CC, Pontypridd CC, Rhondda CC, Vale of Glamorgan CC.

South Wales East (470,878): Blaenau Gwent CC, Caerphilly CC, Islwyn CC, Merthyr Tydfil and Rhymney CC, Monmouth CC, Newport East CC, Newport West CC, Torfaen CC.

Local Inquiry

186. Following the publication of our provisional recommendations we received objections to the proposal to include the proposed Dwyfor Meirionnydd constituency in the Mid and West Wales Assembly Region. The Assistant Commissioner who conducted the Gwynedd and Clwyd local inquiry reported that this issue had also been raised at the inquiries in Bangor and Ruthin. The opponents of the Commission's proposal suggested that the proposed constituency should be included in the North Wales region. The Assistant Commissioner however considered that there was a community of interest between the proposed constituency and other parts of the proposed Mid and West Wales Assembly region and that the Commission's provisional proposal provided a better parity between the electorates of the Assembly regions. The Assistant Commissioner therefore supported the provisional recommendations of the Commission in respect of the allocation of constituencies to the North Wales electoral region and the Mid and West Wales electoral region for the National Assembly for Wales.

Final Recommendations

187. We considered the Assistant Commissioner's report and all of the representations made in respect of our provisional recommendations for the Welsh Assembly electoral regions. We noted the concerns raised in the objections but remained of the view that our provisional recommendations were wholly appropriate to give effect to the Rules for the Constitution of Assembly Electoral Regions (Appendix B). We therefore decided to confirm those recommendations.
188. *We recommend* adoption of our proposals for the Welsh Assembly electoral regions as detailed below.

RHANBARTHAU CYNULLIAD CYMRU A ARGYMHELLIR

